We also feel that more could be done to better capture and analyse data in Wales to assess service delivery against the cancer plan, and to identify best practice.

The International Cancer Benchmarking Project (ICBP) has shown that UK cancer outcomes lag behind other comparable European Countries; evidence suggests this is due to both variation in access to treatment and late diagnosis, particularly the large number of cancers diagnosed through emergency admissions to hospital.

Our response therefore focuses on the action needed to diagnose cancers earlier in Wales, and to ensure people have equal access to the best treatment as recommended by their doctor.

These are the two areas that need to be prioritised if we are going to achieve better outcomes.

We have focused on: late stage cancer diagnosis in harder to reach groups; the variation in access to diagnostics tests in Wales; the effectiveness and take up of the bowel screening programme; and better access to treatments.

These are the areas where there is inequality, and where the cancer delivery plan lacks detail and national planning and oversight.

We would like to see:

Early diagnosis awareness campaigns considered at national level, and for local activity to be well coordinated, taking into consideration the needs of different population groups. This includes targeting lower socio-economic groups where indicated.

An improvement in the collection of staging data to ensure that we can identify and address problems with late diagnosis.

Better access to diagnostic tests for GPs

the Welsh Government develop a plan to add Bowel Scope Screening to the Welsh Bowel Screening Programme as soon as possible.

a data set for radiotherapy in Wales and a more joined up national comprehensive plan must be put in place for future service improvements

1. Early Diagnosis

Earlier diagnosis can dramatically improve survival for many cancers. For example, the ICBP has shown that when colon and colorectal cancer is diagnosed at the earliest stage, 1 year survival is over 90%, whereas when it is diagnosed at the latest stage survival is only 34%. ¹

The Welsh Government cancer delivery plan states that, “Local Health Boards need to raise awareness among public and health professionals about the risks and symptoms of cancer and how to act promptly and appropriately on this knowledge,” and that “Diagnostic testing, particularly ultrasound and CT scans, should be available on request to primary care practitioners wherever this will reduce the time to diagnosis. All investigations that might demonstrate cancer should be reported promptly.”

At the moment all of the LHB individual cancer delivery plans acknowledge the importance of diagnosing cancers earlier in Wales, and the need to plan campaigns similar to the ‘Be Clear on Cancer Campaign.’ Some LHBs specify details of how and what they are doing to achieve this. For example Cwm Taff has established a Community Cancer Awareness Network which brings together all cancer stakeholders, including primary care, to raise awareness of the signs and symptoms of cancer and to improve quicker diagnosis in primary care. Other LHBs state that they will plan future work but do not provide detailed plans.

We know that each year 5,600 patients in the UK are diagnosed with cancer at a late stage because of social and health inequalities ². This is in part due to a lack of awareness of cancer symptoms amongst lower socioeconomic groups.

¹ Maringe, C., *Stage at diagnosis and colorectal cancer survival in six high-income countries: A population-based study of patients diagnosed during 2000–2007*. Acta Oncologica, 2013. 52(5): p. 919-932.

We would like to see awareness campaigns considered at national level and for local activity to be well coordinated, taking into consideration the needs of different population groups. This includes targeting lower socio-economic groups where indicated.

Analysis of accurate staging data across different cancer types plays a key role in gaining an understanding of where delays to diagnosis are significant. We acknowledge that recording and collection of staging data is improving in Wales and the Wales Cancer Intelligence and Surveillance Unit will be carrying out more work on staging data this year. However it will be important for the staging data to be analysed and priorities and actions set accordingly.

We would like to see an improvement in the collection of staging data to ensure that we can identify and address problems with late diagnosis.

Diagnosing Lung cancer earlier in Wales - Preliminary work by the Wales Cancer Intelligence and Surveillance Unit (WCISU) indicates that 51% of lung cancer patients had an emergency episode of care leading to their diagnosis.³

In October 2013, Cancer Research UK (CR-UK) hosted an all Wales Knowledge Sharing meeting on Early Diagnosis to discuss the early diagnosis of cancer and access to optimal treatments . The meeting looked at the latest data and the evidence base around current interventions to consider what work could be taken forward in Wales including data on cancer diagnosed through emergency routes. The group agreed that an early diagnosis initiative should be taken forward based on lung cancer covering information, workforce, campaigns and public information. We support a national initiative on early diagnosis in Wales and will continue to work with the Welsh Government to ensure that this activity is taken forward as soon as possible.

Access to Diagnostic tests – the need for better access to diagnostics tests to improve earlier diagnosis was also highlighted at the workshop. Experts were concerned about diagnostic test capacity, waiting times for tests, and the variation in access to diagnostic tests between localities and health boards. There was also concern that the current system is not equipped to take on the extra referrals that may be generated by future public awareness campaigns. It was acknowledged that preparing the system for any increased demand would need to be an integral part of any campaign s.

More needs to be done to ensure that GPs are aware of the availability of these tests, and that they are able to access them when requested. The Welsh Government will need to consider the level of funding needed to improve access to these tests.

2. Bowel Cancer screening

² Lyratzopoulos, G. et al. Socio-demographic inequalities in stage of cancer diagnosis: evidence from patients with female breast, lung, colon, rectal, prostate, renal, bladder, melanoma, ovarian and endometrial cancer. Annals of Oncology doi:[10.1093/annonc/mds526](https://doi.org/10.1093/annonc/mds526)

³ Presentation by the WCISU at CR-UK knowledge sharing working on early diagnosis. October 2013.

The Cancer Plan states that, “Screening services need to keep pace with the changing evidence of benefit and remain of the highest international standard. Action is needed to find more effective ways to increase take up by harder to reach groups.”

Survival rates for colorectal cancer patients in Wales are poorer than most other countries in Europe,⁴ and older people and those from deprived areas are more likely to be diagnosed with cancer at a more advanced stage.

Improving overall uptake for bowel screening needs to be prioritised across all of Wales. Screening is the best way to diagnose bowel cancer early and early diagnosis is crucial - patients diagnosed with bowel cancer at the earliest stage have a better than 90% chance of surviving for five years, whilst for those diagnosed at the latest stage this drops to just 6.6%.⁵

We are currently piloting a campaign in North London, targeted at deprived communities, which aims to raise awareness, and remove barriers to bowel screening. We would be happy to share the results of this pilot in due course.

Cancer Research UK co-funded a 16 year study⁶ which showed that Bowel Scope Screening (BSS) cuts deaths by over 40 per cent, and can actually prevent a third of bowel cancers among those screened⁷. The UK National Screening Committee has recommended Bowel Scope Screening (BSS) as an appropriate screening test for use in the UK's screening programmes⁸.

BSS is a one-off test at 55. It is an addition to the existing screening programme – people receiving BSS will still be invited to take part in the FOBT screening programme at 60. BSS is currently being piloted in six sites in England, with full coverage expected by 2016. The Scottish Government have also announced a two-year trial of BSS to start shortly.

We would like to see the Welsh Government develop a plan to add BSS to the Welsh Bowel Screening Programme as soon as possible.

Part of the plan should be an investment in endoscopy provision by the Welsh Government to ensure that services are equipped to take on bowel scope screening without impacting on other diagnostic and surveillance endoscopy services.

3. Equal access to treatment

The Cancer Plan states that, “Hospital services should be delivered promptly, be well co-ordinated with effective communication across boundaries and ensure good patient experience.”

⁴ Verdecchia, A., S. Francisci, and H. Brenner, *Recent cancer survival in Europe: a 2000-02 period analysis of EUROCARE-4 data* (vol 8, pg 784, 2007). Lancet Oncology, 2008. 9(5): p. 416-416.

⁵ <http://www.cancerresearchuk.org/about-us/we-develop-policy/our-policy-on-early-diagnosis/our-policy-on-bowel-cancer-screening>

⁶ <http://www.cancerresearchuk.org/cancer-info/news/archive/cancernews/2010-04-27-Five-minute-screening-test-could-prevent-thousands-of-bowel-cancers>

⁷ Atkin, W.S., et al., *Once-only flexible sigmoidoscopy screening in prevention of colorectal cancer: a multicentre randomised controlled trial*. Lancet, 2010. 375(9726): p. 1624-33.

⁸ UKNSC, *Note of the meeting held on 10 March 2011*. 2011.

However we feel that the commissioning and planning of treatment services, such as radiotherapy, could benefit from better national coordination and strategic planning.

Radiotherapy is a highly effective way of treating cancer. Four in ten people whose cancer is cured have received radiotherapy, and every year radiotherapy helps cure more people than cancer drugs.

New radiotherapy techniques like Intensity modulated radiotherapy IMRT are able to give precise doses to the tumour, rather than the surrounding tissue area.

However we know that the roll out of IMRT has been slow across Wales because of complex bureaucratic processes between the different Local Health Boards, and variation exists in access to advanced radiotherapy treatments. We believe that more national oversight could help address this.

We need a data set for radiotherapy in Wales and a more joined up national comprehensive plan must be put in place for future service improvements.

About Cancer Research UK

Every year around 300,000 people are diagnosed with cancer in the UK. Every year more than 150,000 people die from cancer. Cancer Research UK is the world's largest cancer charity and is dedicated to saving lives through research. Together with our partners and supporters, Cancer Research UK's vision is to bring forward the day when all cancers are cured. We support research into all aspects of cancer through the work of over 4,000 scientists, doctors and nurses. In 2012/13, we spent over £330 million on research in institutes, hospitals and universities across the UK. The charity's pioneering work has been at the heart of the progress that has already seen survival rates in the UK double in the last forty years. We receive no government funding for our research.

In Wales fund the Wales Cancer Trials Unit which is dedicated to improving clinical practice through quality research evidence. We also fund the Cardiff Cancer Research UK Centre which draws together world class research and areas of medical expertise to provide the best possible results for cancer patients nationwide.

National Assembly for Wales

Health and Social Care Committee

Inquiry into the progress made to date on implementing the Welsh Government's Cancer Delivery Plan

Evidence from Macmillan Wales – CDP 16

		
Papur briffio ar gyfer :	Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol.	
Diben :	Ymateb Macmillan Cymru i'r ymchwiliad i'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru.	
Cyswllt :	Susan Morris, Rheolwr Cyffredinol Cymru.	
Dyddiad creu:	3 Ebrill 2014	

1. Cyflwyniad

Mae Macmillan wedi ymrwymo i gefnogi partneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru (LIC), GIG Cymru, Byrddau lechyd Lleol (BILLau), Ymddiriedolaeth GIG Felindre a Llywodraeth Leol i wella'r gofal i'r rhai wedi'u heffeithio gan ganser ledled Cymru. Rydym wedi buddsoddi bron i £10m yn ystod y tair blynedd diwethaf mewn gwella gofal cancer yng Nghymru ac rydym yn rhoi cymorth i dros 270 o weithwyr proffesiynol Macmillan yng Nghymru.

Mae Macmillan yn croesawu'r ymchwiliad hwn i'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru gan Bwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym yn ystyried bod Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yn ysgogydd allweddol i godi safonau, gwella canlyniadau clinigol a gwireddu gweledigaeth gofal cancer sy'n rhoi'r person yn y canol yng Nghymru. Mae bron i ddwy flynedd ers i LIC lansio ei Chynllun Cyflawni ar gyfer Canser a chredwn felly fod ymchwiliad y Pwyllgor yn amserol ac yn angenrheidiol er mwyn gweld pa gynnydd a wnaed, lle mae'r heriau a'r bylchau o ran ei gyflawni.

Mae angen gweithredu ar fyrdar er mwyn i Gymru wireddu'r weledigaeth sydd yng Nghynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC erbyn 2016. Rydym yn llawn werthfawrogi maint yr her sy'n gofyn am arweinyddiaeth glinigol a rheolaethol ymroddedig a llawn ffocws ar lefel genedlaethol a lleol.

O ran y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad hwn, mae ein hymateb yn ceisio amlygu:

- a yw Cymru'n dilyn yr amserlen i gyflawni'r canlyniadau a'r mesurau perfformiad, fel y'u nodwyd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser, erbyn 2016; yn enwedig o ran gwireddu'r uchelgais i fod y gorau yn Ewrop a gwella'r canlyniadau yn adran 6.4 'Achub Anghenion Pobl', maes allweddol yn

y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser i'r rhai wedi'u heffeithio gan ganser.

- ac a wnaed cynnydd o ran lleihau'r bwlc anghyfartaledd o ran mynchyder cancer, cyfraddau goroesi a marwoldeb.

2. Yr Achos dros Newid

Gan fod diagnosis a thriniaeth cancer yn dod yn fwyfwy effeithiol, mae llawer mwy o bobl yn byw'n hirach gyda chanser a'r tu hwnt iddo. Erbyn 2030, amcangyfrifir y bydd nifer y bobl sy'n byw gyda neu ar ôl cancer bron yn dyblu i bron i chwarter miliwn (o 120,000 i 217,000) Wrth i natur cancer newid, felly hefyd anghenion y rhai wedi'u heffeithio ganddo - ac ystod y gweithwyr proffesiynol a'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ofynnol i helpu i ateb yr anghenion hynny. Bydd gan y boblogaeth hon sy'n tyfu'n oblygiadau arwyddocaol i iechyd a gofal cymdeithasol fel ei gilydd a byddant yn herio'r modelau gofal cancer presennol. Mae'n rhaid gweithredu i sicrhau bod y gofal yn holistaidd gydag anghenion anghlinigol yn cael eu hystyried fel mater o drefn, a'u bod yn cwmpasu anghenion cymdeithasol, ariannol, emosiynol, ymarferol, seicolegol, ysbrydol a gwybodaeth. Mae angen gofal y tu hwnt i'r clinigol ar bobl i'w galluogi i fyw cystal ag sy'n bosibl ac i ddod yn bartneriaid yn eu gofal fel y gallant hunanreoli cyhyd â phosibl.

Yn fwyfwy, bydd pobl a fyddai wedi marw'n fuan ar ôl cael diagnosis ddegawdau'n ôl yn byw'n hirach. Bydd 1 o bob 4 o bobl yn byw gyda'r canlyniadau a bydd llawer yn byw gyda chanser nad oes modd ei wella, gwellhad dros dro a phyliau o salwch eto. Mae angen mwy o ffocws ar y cyfnod goroesi hwn er mwyn gwella ansawdd bywyd, rhoi cymorth i gleifion fyw'n dda, gan y bydd llawer mwy'n byw gyda chanser, neu gyda chanlyniadau cancer fel cyflwr tymor hir.

3. Gofal Cancer yng Nghymru

Mae dogfennau polisi allweddol, ymchwil ac adroddiadau am brofiad cleifion sy'n llywio ein hymateb i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

3.1 Mae *Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser L/C* yn cynnig ymagwedd strategol tuag at driniaeth a gofal cancer. Dyma'r ddogfen graidd ar gyfer llywio cyflenwi gwasanaethau cancer a monitro mynchyder cancer, marwoldeb a chyfraddau goroesi ledled Cymru.

3.2 Mae *Adroddiad Atodol Technegol: Grŵp Cyngori Arbenigol Cenedlaethol Cancer* yn coladu data epidemiologol, proffiliau penodol i ganser, archwiliadau a threialon clinigol ac yn rhoi cymariaethau data defnyddiol â gwledydd eraill yn Ewrop. Felly mae'n helpu i asesu'r cynnydd a wnaed i gyflawni'r uchelgais o fod y gorau yn Ewrop.

3.3 Mae canlyniadau'r *Arolwg o Brofiad Cleifion Cancer Cymru 2014* (CPES) yn rhoi dadansoddiad cadarn a chynhwysfawr o brofiadau pobl o ofal cancer yng Nghymru, gyda'r arolwg yn cynnwys barn 7,352 claf gyda chyfradd ymateb o 69%. Mae'r (CPES) yn cynnig meincnod pwysig, ar lefel genedlaethol a lleol, o ran profiad cleifion ac i ba raddau y mae Byrddau Iechyd yn ateb anghenion pobl fel y'u nodwyd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer. Menter ar y cyd oedd yr arolwg rhwng Macmillan a Llywodraeth Cymru.

Mae'n bwysig cydnabod bod canlyniadau'r CPES ym mis Ionawr 2014 yn dangos lefelau uchel o fodlonrwydd â gofal cancer y GIG yng Nghymru, gyda 89% o'r cleifion yn dweud bod eu gofal cyffredinol yn rhagorol neu'n dda iawn a 1% yn unig yn dweud bod y gofal yn wael. Mae hyn yn arwydd eglur iawn fod y profiad cyffredinol yn un da ac mae'n waelodlin uchel iawn ar gyfer gwelliant pellach. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r arolwg yn dangos hefyd mai isel yw'r cydymffurfio yn

erbyn ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser a bod amrywiaeth arwyddocaol ar draws ysbytai Cymru, byrddau iechyd a mathau o ganser.

Bwriad yr argymhellion yn y ddogfen hon yw adeiladu'n wrol ar yr arferion da presennol a nodi meysydd i'w gwella er mwyn helpu'r cynnydd tuag at wireddu'r uchelgais i fod gyda'r gorau yn Ewrop.

4. Pwyntiau gweithredu allweddol

Mae Macmillan yn galw ar LIC i wneud y canlynol:

5.3 Rhoi cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol eglur wedi'u cynorthwyo gan strwythur cyffredinol ar gyfer Cymru gyfan er mwyn cynllunio, atebolrwydd a pherfformiad. Dylai osod y blaenoriaethau ar sail Cymru gyfan am gyfnod o dair blynedd tan ddiwedd 2016; gosod systemau monitro cadarn i archwilio ac adrodd yn agored ar gynnydd a defnyddio data i gyfeirio gwelliannau er mwyn codi safonau a sicrhau bod ymagweddu cyson tuag at wella gofal cancer yng Nghymru.

6.3 Adolygu cynnwys ac ansawdd adroddiadau blynyddol Byrddau lechyd a sicrhau bod Cynlluniau Cyflawni Byrddau lechyd yn nodi'n benodol y cynnydd yn erbyn pob gofyniad yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser; sicrhau bod Byrddau lechyd yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol a'u cynlluniau cyflawni'n gyson ac yn sicrhau eu bod yn amserol, hygyrch, eglur a dealladwy. Mae angen archwilio cenedlaethol cyffredinol cadarn i fonitro safonau, rhoi canllawiau a sicrhau bod cydymffurfio yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt.

6.6. Darparu arweinyddiaeth strategol, eglurder a thryloywder gwirioneddol ar gymhwysomserau aros, polisiau a thargedau a sut mesurir perfformiad yn erbyn targedau. Mae angen gweithredu nawr i sicrhau bod Byrddau lechyd yn cyflawni eu targedau amser aros fel nad yw cleifion yn wynebu oedi cyn cael diagnosis neu ddechrau triniaeth.

6.9 Sicrhau bod Byrddau lechyd yn defnyddio canlyniadau data arolwg CPES Cymru yn lleol ac yn dangos yn benodol y camau a gymerwyd i wella'r cynnydd wrth gyflawni gofal sy'n rhoi'r person yn y canol yn eu hadroddiadau blynyddol a'u cynlluniau cyflawni.

7.3 Cynhyrchu diffiniad eglur a diamwys o'r rôl y Gweithiwr Allweddol. Mae hyn yn allweddol ac mae ei angen ar fyrdar er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad ac ansawdd ledled Cymru a fydd yn helpu i sicrhau bod y rôl yn cael ei gweithredu'n gyson ar draws Byrddau lechyd Lleol.

7.6 Cynhyrchu diffiniad eglur, y cytunwyd arno'n genedlaethol o'r hyn yw darparu asesiad anghenion holistaidd a chynllun gofal ysgrifenedig, wedi'i gysylltu â'r rôl y Gweithiwr Allweddol, i helpu i roi cydraddoldeb mynediad ac ansawdd i ofal sy'n rhoi'r person yn y canol ledled Cymru.

7.9 Ymrwymo i sicrhau bod yr argymhelliaid yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser y dylai'r rhai wedi'u heffeithio gan ganser gael cyfreithiol i gael mynediad i gyngor budd-dal lles yn cael ei weithredu'n gyson gan BILLau.

7.12 Datblygu ymagweddu strategol gyda sicrwydd ansawdd dros Gymru gyfan fel bod gwybodaeth a chymorth cyson, hygyrch sydd wedi'u teilwra i gleifion cancer yng Nghymru.

Law yn Llaw at Iechyd - Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC

5. Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd ar lefel genedlaethol

5.1 Dylai Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yrnu newid a gwelliannau cenedlaethol ac felly sicrhau cysondeb o ran gwasanaethau a safonau i gleifion ledled Cymru. Meddai Prif Weithredwr GIG Cymru yn y Rhagair 'Byddaf yn dal BILLau i gyfrif ar y canlyniadau y maent yn eu cyflawni ar gyfer eu poblogaethau'.

5.2 **Ymateb Macmillan Cymru:** Roedd gwir angen cyfeiriad strategol Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LLC ac roedd yn hynod werthfawr yn 2012 ond hyd yma, cyfyng fu'r gweithredu arno. Bellach mae angen mireinio'r safonau a'r targedau a nodwyd yn y ddogfen ac mae angen cryfhau'r anghenion monitro. At hynny, nid eir i'r afael â chanlyniadau peidio â chydymffurfio oherwydd diffyg eglurder mewn llywodraethu a hunanadrodd ac oherwydd nad oes ysgogiadau sy'n gyrru gweithredu a newid. Nid yw'r system bresennol yn ddigon trylwyr i leihau amrywiaethau ac ychydig o gyfleoedd sydd i rannu arferion da ar draws timau a BILLau ac felly osgoi dyblygu ymdrech. Rhoesom groeso i greu'r Grŵp Gweithredu ar Ganser a'r cynnydd gwerthfawr a wnaed hyd yma; fodd bynnag, ar ei ffurf bresennol ni all bontio'r bwlch yn effeithiol rhwng polisi cenedlaethol a gweithredu lleol. Yn ogystal, nid yw'r trefniadau a'r seilwaith presennol yn galluogi cynllunio rhwydwaith cenedlaethol neu ar draws byrddau iechyd ar gyfer mentrau fel oncoleg aciwt. Mae'n eglur bod angen edrych yn strategol ar y meysydd hyn ac nid yn ddarniog ac ar lefel leol yn unig.

5.3 Mae Macmillan yn galw ar LIC i roi cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol eglur, wedi'u cynorthwyo gan strwythur cyffredinol cenedlaethol i Gymru gyfan o ran cynllunio, atebolrwydd a pherfformiad. Dylai osod y blaenoriaethau ar sail Cymru gyfan am gyfnod o dair blynedd tan ddiwedd 2016; gosod systemau monitro cadarn i archwilio ac adrodd yn agored ar gynnydd a defnyddio data i gyfeirio gwelliannau er mwyn codi safonau a sicrhau bod ymagweddu cyson tuag at wella gofal cancer yng Nghymru.

Byddai ymagweddu cenedlaethol ledled Cymru yn:-

gwella'r monitro cyfredol a chynorthwyo ymyrraeth wedi'i thargedu a fyddai'n rhoi sicrwydd fod safonau'n cael eu bodloni;

- rhoi cymorth i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac osgoi dyblygu ymdrech;
- hwyluso rhannu a lledaenu arferion a dysgu da;
sicrhau bod camau'n digwydd i leihau amrywiadau ac anghydraddoldebau ledled byrddau iechyd;
- gwella cydlynu'r gofal ar draws llwybrau gofal cymhleth rhwng cyrff;
gwella cyflawni gofal cancer integredig ar draws lleoliadau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd;
creu cyfleoedd i adolygu, herio a dadgomisiynu llwybrau gofal traddodiadol sy'n bodoli mewn amgylchedd nad yw'n ymwneud â chomisiynu er mwyn sicrhau bod gofal yn gost effeithiol.


Canlyniadau cenedlaethol

5.4 Mae Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yn nodi y 'byddai'r GIG yn gweithio gydag uchelgais - yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol - fel ein bod gyda'r gorau yn Ewrop ar gyfer

5.5 Ymateb Macmillan Cymru:- Mae angen cadw i fyny â newid sydyn er mwyn sicrhau bod triniaeth ganser yn gyflym, yn effeithiol ac o ansawdd uchel. Er bod goroesi am bum mlynedd yng Nghymru ar lefel genedlaethol wedi gwella ar gyfer canserau'r stumog, y rectwm, y fron a'r brostad, ychydig o welliant sydd o ran canserau'r colon, yr ysgyfaint a'r ofari. Canfu astudiaeth wedi'i seilio ar boblogaethau, Eurocare 5, fod y DU a Gweriniaeth Iwerddon yn gyffredinol y tueddu i fod â chyfraddau goroesi is na gweddill Ewrop a nodir mai'r canserau lle mae'r DU a Gweriniaeth Iwerddon fwyaf ar ôl gweddill Ewrop yw canser yr arenau, y stumog a'r ofari. Mae maes pryder penodol yn ymwneud â chyfraddau goroesi am bum mlynedd canser yr ysgyfaint ac mae'r graff isod (Ffigur 1) yn amlyu'n eglur iawn safle Cymru fel y 28^{ain} allan o 29 gwlaid ac mae'n dangos un wlad yn unig, Bwgaria, sydd â chyfradd goroesi lai na Chymru. Mae dystiolaeth o'r un ffynhonnell yn awgrymu bod safle Cymru ar gyfer canserau eraill yn amrywio o'r 19^{eg} allan o 29 gwlaid ar gyfer lymffoma nad yw'n Hodgkin's; 21^{ain} allan o 29 gwlaid ar gyfer canser y Fron a'r Brostad. Mae hyn yn dangos yr her enfawr sy'n wynebu Cymru o ran gwireddu'r uchelgais o fod gyda'r gorau yn Ewrop.

Ffigur 1.

Canser yr Ysgyfaint



De Angelis R, Sant M, Coleman MP, et al. Cancer survival in Europe 1999–2007 by country and age: results of EUROCARE-5—a population-based study. Lancet Oncol 2013; published online Dec 5. [http://dx.doi.org/10.1016/S1470-2045\(13\)70546-1](http://dx.doi.org/10.1016/S1470-2045(13)70546-1).

5.6 Mae cydymffurfio ag Arweiniad Gwella Canlyniadau NICE a Safonau Canser Cenedlaethol Cymru yn hanfodol wrth gyflawni gofal cancer o ansawdd uchel. Mae Adolygiad Cymheiriad Arolygiaeth lechyd Cymru (HIW) o safleoedd tiwmor cancer yn ddatblygiad arwyddocaol a phwysig i Gymru. Mae'n hanfodol fod y dystiolaeth ar berfformiad yn cael ei chydlynu i fesur pa mor dda y mae Cymru'n performio o ran cyflawni safonau cenedlaethol a bod ymagwedd y cydlynol er mwyn sicrhau bod cymorth i welliannau.

Mae'r wybodaeth hyd yma'n awgrymu bod angen gwella'r gwasanaethau a'r safonau ar gyfer canserau prinnach, plant, rhai yn eu harddegau, pobl hŷn a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd. **Byddai proses gynllunio genedlaethol Cymru gyfan sy'n nodi blaenorriaethau flwyddyn ymlaen llaw a than ddiwedd y Cynllun yn 2016, yn unol â'r symud tuag at gynllunio ariannol dros dair blynedd ar gyfer BILLau, yn gwella ac yn cynorthwyo symudiadau strategol a'r newid radical sydd eu hangen i symud Cymru'n nes at y nod o fod gyda'r gorau**

yn Ewrop, yn ogystal â monitro safonau a chydymffurfio. Bydd system sicrhau ansawdd ddibynadwy a chadarn yn sicrhau bod pawb yng Nghymru'n symud ymlaen tuag at yr uchelgais o fod gyda'r gorau yn Ewrop, yn gwneud y bwlch yn dryloyw ac yn mesur y cynnydd tuag at ei gau ar yr un pryd.

6. Atebolrwydd a chydymffurfio Mecanweithiau

Adrodd ar lefel Byrddau lechyd

6.1 Mae Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yn ei gwneud hi'n ofynnol i BILLau "cyhoeddi gwybodaeth gyson a hawdd ei deall am effeithiolrwydd eu gwasanaethau cancer" a "cyhoeddi adroddiad blynnyddol ar wasanaethau cancer ar gyfer cyhoedd Cymru bob blwyddyn i ddangos cynnydd" a "cynhyrchu a chyhoeddi cynllun cyflawni lleol manwl ar gyfer cancer er mwyn adnabod, monitro a gwerthuso'r gweithredu sydd ei angen erbyn pryd a chan bwy...a chyhoeddi'r adroddiadau hyn ar eu gwefannau bob chwarter."

6.2 **Ymateb Macmillan Cymru:** Mae ein dadansoddiad ni o adroddiadau blynnyddol a chynlluniau cyflawni Byrddau lechyd yn awgrymu mai'n rhannol yn unig y mae gweithredu'r ymrwymiadau adrodd hyn wedi'u bodloni a bod ansawdd y wybodaeth am wasanaethau cancer sydd ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd yn ddarniog, yn anghyson ac yn annigonol. Mae ansawdd a chynnwys yr Adroddiadau a gyhoeddir yn amrywio'n fawr ac ar hyn o bryd nid ydynt yn cwmpasu'n benodol yr holl gamau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser. Mae diffyg eglurder yng nghynlluniau'r Byrddau lechyd ynghylch sut bydd yr holl dargedau sydd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yn cael eu cyflawni erbyn y dyddiad a bennwyd, sef 2016. Mae hyn yn allweddol er mwyn gwella tryloywder, codi safonau, mesur canlyniadau a chyflawni gofal cancer gyda'r person yn y canol yn gyson yng Nghymru.

6.3 Mae Macmillan yn galw ar LIC i:- adolygu cynnwys ac ansawdd adroddiadau blynnyddol Byrddau lechyd a sicrhau bod eu Cynlluniau Cyflawni'n nodi cynnydd yn benodol yn erbyn pob un o'r gofyniadau sydd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser; a bod Byrddau Lleol yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynnyddol a'u cynlluniau cyflawni'n gyson ac yn sicrhau eu bod yn brydlon, yn hygyrch, yn eglur ac yn ddealladwy. Mae angen archwilio cenedlaethol cyffredinol cadarn i fonitro safonau, rhoi canllawiau a sicrhau bod cydymffurfio yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt.

Cyflawni targedau amserau aros

6.4 Mesur perfformiad allweddol yng Nghynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yw i Fyrddau lechyd gyflawni targedau 31 a 62 diwrnod amser aros cancer.

6.5 **Ymateb Macmillan Cymru:** Mae ein dadansoddiad o amserau aros cancer yn dangos bod Byrddau lechyd ar y cyfan yn bodloni'r gofyniad 31 diwrnod ond ar gyfer achosion brys a amheuir, mae'r targed 62 diwrnod yn parhau i gael ei fethu, gyda dros hanner y Byrddau lechyd yn methu'r targed bob chwarter am y tair blynedd diwethaf. Nid yw cyfartaledd Cymru ar gyfer y targed hwn wedi cael ei gyrraedd ers bron i bedair blynedd ac ar hyn o bryd mae ar 92.1% Mae hyn 2.9% o dan y targed o 95%. At hynny, ymddengys fod peth dryswch a dehongliadau gwahanol o ran amser dechrau'r targed 62 diwrnod. Er bod peth gwelliant wedi'i adrodd yn ddiweddar mae hyn yn dal i olygu na ddechreuodd 1,054 claf eu triniaeth o fewn y targedau amser aros rhwng mis Ionawr 2013 i fis Rhagfyr 2013.ⁱⁱ Mae canlyniadau arolwg CPES Cymru yn dangos hefyd er bod 78% o'r cleifion yn teimlo iddynt gael eu gweld cyn gynted ag oedd angen, bod 1,524 claf yn teimlo y dylent fod wedi cael eu gweld yn gynharach. Rydym yn ymwybodol fod LIC yn adolygu ei pholisi a'i thargedau amser

aros ar hyn o bryd.

Rhaid i gleifion canser gael mynediad i'r profion diagnostig a'r driniaeth gywir yn fuan fel bod ganddynt y cyfle gorau o oroesi a byw'n hirach gyda chanser. Mae gan Macmillan dystiolaeth anecdotaid fod cleifion yng Nghymru'n wynebu oedi sylweddol wrth gael mynediad i brofion diagnostig ac mae hyn yn achos pryder. Mae oedi diangen cyn cael diagnosis a dechrau triniaeth yn gallu achosi tralod a phryder sylweddol i gleifion, a'u teuluoedd, yn ogystal â chael effaith andwyol ar eu canlyniadau clinigol a rhaid rhoi sylw i hyn ar fyrdar.

6.6 Mae Macmillan yn galw ar LIC i roi arweiniad strategol ac eglurder a thryloywder llwyr ynghylch sut caiff amserau, polisiau a thargedau aros eu cymhwysedd a sut caiff perfformiad yn erbyn targedau ei fesur. Mae angen gweithredu nawr i sicrhau bod Byrddau lechyd yn cyflawni eu targedau amser aros fel nad yw cleifion yn wynebu oedi wrth gael diagnosis neu ddechrau triniaeth.

Cyflawni gofal sy'n rhoi'r person yn y canol

6.7 Mae Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yn gwneud ymrwymiad i gyflawni gofal canser gyda'r person yn y canol yng Nghymru a bod 'pobl yn cael eu rhoi wrth graidd gofal canser gyda'u hanghenion unigol wedi'u nodi a'u bodloni fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth a gwybodaeth dda, ac yn gallu rheoli effeithiau canser'. Yn benodol, mae'n galw ar Fyrddau lechyd Lleol i a) neilltu Gweithiwr Allweddol; b) asesu'r anghenion clinigol ac anghlinigol a rhoi cynllun gofal ysgrifenedig i gleifion a c) rhoi crynodeb "diwedd y driniaeth" i bob meddyg teulu.

6.8 **Ymateb Macmillan Cymru:** Rydym yn deall y bydd rhai o'r ymrwymiadau hyn yn cymryd amser i'w gweithredu'n llawn. Serch hynny, rydym yn poeni nad yw hi'n ymddangos bod prosesau a strwythurau eglur yn eu lle er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu dehongli a'u cyflawni'n gyson drwy Gymru benbaladr. Mae cyflawni'r ymrwymiadau hyn a gwneud i ofal sy'n rhoi'r person yn y canol ddigwydd mewn gwirionedd yn gofyn i Fyrddau lechyd Lleol wneud pethau'n wahanol. Mae ein dadansoddiad o Gynlluniau Cyflawni Byrddau lechyd yn datgelu nad yw meysydd allweddol yn cael sylw cyson ledled Cymru, er enghraift pennu Gweithiwr Allweddol, asesiadau holistaidd sy'n rhoi cynllun gofal ysgrifenedig personol i gleifion, pethau sy'n allweddol er mwyn darparu gofal canser sy'n rhoi'r person yn y canol. At hynny, ychydig o dystiolaeth sydd i'w gweld i ddangos ymrwymiad Byrddau lechyd Lleol i ymgymryd â'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau hyn ledled Cymru. Nid dewis ychwanegol yw gofal sy'n rhoi'r person yn y canol; mae'n hanfodol er mwyn cyflawni gofal o ansawdd uchel a lleihau niwed, a gall leihau defnydd aneffeithiol o adnoddau cyfyngedig y GIG.

6.9 **Mae LIC wedi ymrwymo i ailadrodd arolwg CPES Cymru, o bosib yn 2015. Mae canlyniadau'r arolwg cyfredol yn rhoi data gwaelodlin pwysig ac mae angen i Fyrddau lechyd weithredu nawr er mwyn dangos cynnydd i'r dyfodol. Mae Macmillan yn galw ar LIC i sicrhau bod Byrddau lechyd yn defnyddio canlyniadau arolwg CPES Cymru yn lleol a dangos yn benodol y gweithredu a'r ymatebion a wnaethpwyd er mwyn cyflawni gofal sy'n rhoi'r person yn y canol yn eu hadroddiadau blynnyddol.**

7. Law yn Llaw at Iechyd - Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC: 6.4: Cwrdd ag Anghenion Pobl

Darparu Gweithiwr Allweddol


7.1 Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yn cynnwys ymrwymiad y bydd pob un a gaiff ddiagnosis cancer yng Nghymru yn cael Gweithiwr Allweddol o adeg y diagnosis er mwyn cydlynur gofal parhaus.

7.2 **Ymateb Macmillan Cymru:** Mae ein dadansoddiad o Gynlluniau Cyflawni Byrddau Iechyd yn datgelu bod sôn am Weithwyr Allweddol ond bod anghysondeb wrth ddehongli a gweithredu menter y Gweithiwr Allweddol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, caiff rôl a chwmpas rôl y Gweithiwr Allweddol eu diffinio a'u gweithredu'n lleol, ac rydym yn pryderu bod hyn yn arwain at anghysondeb yn y ffordd y caiff y rôl ei dehongli ac anghyfartaledd daearyddol yn ansawdd y gwasanaeth a gaiff rhai wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru.

Mae data arolwg CPES Cymru yn rhoi dystiolaeth nad oes gan bob unigolyn sydd â diagnosis cancer Weithiwr Allweddol a 66% yn unig o'r cleifion yn yr arolwg a ddywedodd iddynt gael enw a manylion cysylltu eu Gweithiwr Allweddol. Mae canlyniadau o Fyrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau unigol yn dangos bod amrywiadau sylweddol yng nghyfran y cleifion a ddywedodd iddynt gael enw Gweithiwr Allweddol. Roedd y sgoriau mewn Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau yn amrywio o 58% yn cytuno ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i 75% yn cytuno ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae ymatebion ar lefel safle Ysbyty yn datgelu mwy fyth o amrywiad gyda 49% yn unig o'r cleifion yn ysbytai Treforys a Glangwili yn dweud iddynt gael enw Gweithiwr Allweddol o'i gymharu â 74% o'r cleifion yn ysbyty Felindre ac ysbyty Llandochau.

Barn Macmillan yw, yn ystod triniaeth weithredol, y dylai Nyrs Glinigol Arbenigol (CNS) gael ei b/phenodi'n Weithiwr Allweddol, i fod yn gyfrifol am gydlynun triniaeth a gofal ar ran tîm o weithwyr proffesiynol sy'n gofalu am y claf, gan sicrhau pontio a chyfathrebu esmwyth â'r tîm, y claf a'i deulu. Pan fydd y driniaeth weithredol wedi dod i ben, dylid trosglwyddo rôl y Gweithiwr Allweddol, yn y rhan fwyaf o'r achosion, i ofal sylfaenol, e.e. y meddyg teulu, nyrs y practis neu nyrs gymunedol fel y prif gyswilt. Mae'r pontio rhwng gofal eilaidd a sylfaenol yn aml yn gyfnod anodd i gleifion ac mae gofal integredig yn hanfodol fel nad yw cleifion yn teimlo eu bod wedi'u gadael heb neb. Mae Gweithiwr Allweddol yn hanfodol wrth roi cymorth neu wrth hyrwyddo hunanofal yn ystod y cyfnod pontio hwn.

Gydol canlyniadau'r arolwg, ymatebodd cleifion a gafodd Weithiwr Allweddol yn fwy cadarnhaol yn gyson ar feysydd a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar lafar ac ysgrifenedig, ymwneud â'u gofal, gwybodaeth am gyllid, gwybodaeth wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty, gofal ar ôl gadael yr ysbyty a chymorth emosiynol. Mae dystiolaeth ddigamsyniol yn arolwg CPES Cymru fod cael Nyrs Glinigol Arbenigol yn Weithiwr Allweddol yn gwella cyflawni gofal cydlynol ac yn rhoi profiad mwy cadarnhaol yn gyffredinol i gleifion a'u teuluoedd gydol a thu hwnt i'w triniaeth (Ffigur 2).



Ffigur 2: Arolwg CPES Cymru 2014.

“Fy ngweithiwr allweddol oedd y person pwysicaf ar y blaned yn ystod ac ar ôl fy nhriniaeth, roedd hi'n amlwg yn dilyn yr hyn a ddywedwyd yn y clinig bob amser ac mae'n dal i ateb e-byst ac yn cael sgrysiau â mi ar y ffôn er fy mod yn gwybod ei bod hi mor brysur. Diolch”. (Claf. Arolwg CPES Cymru 2014)

7.3 Roedd Mesur Perfformiad Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yn ei gwneud hi'n ofynnol i 100% o'r cleifion gael Gweithiwr Allweddol erbyn 2016. Nid yw'r mesur perfformiad hwn wedi'i gyflawni eto. Mae diffiniad eglur a diamwys o'r rôl y Gweithiwr Allweddol yn hanfodol ac mae ei angen ar fyrdar er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad ac ansawdd ledled Cymru a bydd yn helpu i sicrhau bod y rôl yn cael ei gweithredu'n gyson ar draws Byrddau lechyd.

Darparu Asesiadau a Chynllunio Gofal

7.4 Mae Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yn cynnwys ymrwymiad y bydd pawb sy'n cael diagnosis canser yng Nghymru'n cael asesiad o'u hanghenion clinigol ac anghlinigol drwy gydol eu triniaeth a thu hwnt gyda chanlyniad y drafodaeth bwysig hon yn cael ei ysgrifennu mewn cynllun gofal a chopi'n cael ei roi iddynt.

7.5 Ymateb Macmillan Cymru: Mae ein dadansoddiad o Gynlluniau Cyflawni Byrddau lechyd a gyhoeddwyd yn datgelu bod pob Bwrdd lechyd, heblaw am Fwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf, yn sôn am gynlluniau gofal. Fodd bynnag, Bwrdd lechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn unig sy'n sôn am asesu anghenion holistaidd. Er gwaethaf hyn rydym yn ymwybodol nad yw llawer o gleifion canser yng Nghymru'n cael cynnig cymorth hanfodol yn y misoedd yn ystod eu triniaeth ac ar ei hôl i'w helpu i ddod i delerau â'u diagnosis, sgil effeithiau'r driniaeth, ei effaith ariannol a pharatoi at ofal a hunanofal ar ôl cael triniaeth. Byddai gweithredu asesiadau a chynllunio gofal priodol fel mater o drefn ledled Cymru yn helpu i sicrhau bod y cymorth hanfodol hwn yn cael ei ddarparu'n gyson ledled Cymru.

Er bod y rhan fwyaf o FyRDDau lechyd yn cyfeirio at gynlluniau gofal, mae tystiolaeth yng nghanlyniadau arolwg CPES Cymru fod angen gwella'r penderfynu a'r cynllunio gofal ar y cyd yn sylweddol, gyda 58% yn unig o'r cleifion yn amlygu bod trafodaeth am eu hanghenion wedi digwydd a 22% yn unig o'r cleifion yn dweud iddynt gael cynnig cynllun gofal ysgrifenedig. At hynny, mae canlyniadau gan FyRDDau lechyd / Ymddiriedolaethau unigol yn dangos bod amrywiadau arwyddocaol yng nghyfran y cleifion sy'n dweud iddynt gael cynnig cyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon a'r gyfran a gafodd gynllun gofal ysgrifenedig. Roedd y sgoriau mewn ByRDDau lechyd / Ymddiriedolaethau'n amrywio o un o bob dau (49%) yn cytuno ym Mwrdd lechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i ddu o bob tri (67%) yn cytuno yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

7.6 Roedd Mesur perfformiad Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yn ei gwneud hi'n ofynnol i 100% y cleifion dderbyn cynllun gofal ysgrifenedig yn ystod y driniaeth ac ar ei diwedd gan gwmpasu anghenion clinigol ac anghlinigol erbyn 2016. Mae'n annhebygol y cyflawnir y dangosydd perfformiad hwn heb ymdrech ac ymrwymiad arwyddocaol sydd wedi'i ffocysu gan y ByRDDau lechyd. Mae angen diffiniad eglur, y cytunwyd arno'n genedlaethol, o'r hyn yw darparu asesiad anghenion holistaidd a chynllun gofal ysgrifenedig, a hwnnw wedi'i gysylltu â'r rôl y Gweithiwr Allweddol, i helpu i ddarparu cydraddoldeb cyson o ran mynediad ac ansawdd i ofal sy'n rhoi'r person yn y canol ledled Cymru.

"After "Mae angen i'r ôl-ofal wella yn fy marn i gyda mwy o wybodaeth a chynlluniau gofal ysgrifenedig wedi'u rhoi i bobl ac o ran cael gweithiwr allweddol, bob tro ro'n i'n ffonio, peiriant ateb oedd yno bob amser felly rhoddais y ffidl yn y to." (Claf. Arolwg CPES Cymru 2014.)

Mynediad i gyngor a chymorth ariannol

7.7 Roedd Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yn cynnwys ymrwymiad i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan ganser "gael cyfle, fel mater o drefn, i gael mynediad i gyngor a chymorth ariannol fel rhan o'r broses asesu a chynllunio gofal".

7.8 **Ymateb Macmillan Cymru:** Mae Macmillan wedi ymgyrchu ar y mater hwn ac felly rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn yn gynnes; foddy bynnag, nid oes un o Gynlluniau Cyflawni ac Adroddiadau Interim y ByRDDau lechyd yn cyfeirio at sut maent yn rhoi sylw i'r gofyniad hwn i sicrhau bod pob claf canser yn cael cynnig y cyfle i gael mynediad i gyngor a chymorth ariannol fel mater o drefn. At hynny, mae tystiolaeth eglur o ddata arolwg CPES nad yw hyn yn cael ei weithredu fel mater o drefn ledled Cymru. Mae'r CPES yn amlygu mai 44% yn unig o'r cleifion a ddywedodd iddynt gael digon o wybodaeth gan staff ysbyty am sut i gael help ariannol neu fudd-daliadau. ⁱⁱⁱEto mae amrywiaeth arwyddocaol ar lefel Bwrdd lechyd a lefel safle ysbyty gan fod yr ymatebion yn amrywio o 22% o'r cleifion yn cytuno yn ysbyty Tywysoges Cymru a 60% yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

Mae Macmillan yn cyfrifo bod pedwar o bob pum person sy'n cael eu heffeithio gan ganser yng Nghymru'n cael eu taro gan gost diagnosis canser ac ar gyfartaledd maent £640 y mis yn waeth eu byd (£310 colli incwm a £330 costau ychwanegol). Yn ystod 2013 rhoddodd Cynghorwyr Budd-daliadau Macmillan Cymru gymorth i bron i 3000 o bobl wedi'u heffeithio gan ganser a chawsant bron i £13.4 miliwn mewn budd-daliadau i helpu i'w cynnal nhw a'u teuluoedd yn ystod ac ar ôl eu triniaeth ganser.

7.9 Mae gwasanaeth Budd-daliadau Lles Macmillan yn amlygu'n eglur pa mor bwysig yw hi fod y rhai sy'n cael eu heffeithio gan ganser yn cael gwasanaethau cyngor budd-daliadau ac mae Macmillan Cymru'n ategu'r dystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad a roddwyd gan Helen Powell, Arweinydd Prosiect Ailgynllunio Gwasanaeth Hawliau Lles Macmillan, sy'n rhoi rhagor o dystiolaeth a'r camau gweithredu sydd eu hangen. Mae Macmillan yn galw ar LIC i ailadrodd ei hymrwymiad i'r argymhelliaid yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser i sicrhau bod y rhai sydd wedi'u heffeithio gan ganser yn cael cyfle i gael mynediad i gyngor budd-daliadau lles, os oes angen. Gallai strwythur cenedlaethol cyffredinol i Gymru gynorthwyo'r gwaith o gyflawni gwasanaeth cyngor budd-daliadau cyson i bawb sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru.

Darparu gwybodaeth wedi'i theilwra'n ymwneud â chanser a'r driniaeth

7.10 Roedd Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yn cynnwys ymrwymiad bod '*gan bobl fynediad i wybodaeth amserol fel eu bod yn deall eu cyflwr a'r hyn i edrych amdano a beth i'w wneud a pha wasanaeth i gael mynediad iddo petai problemau'n digwydd*'.

7.11 **Ymateb Macmillan Cymru:** Mae ein dadansoddiad o Gynlluniau Cyflawni Byrddau lechyd yn datgelu mai sylw cryno a roddir i'r maes hwn, a'i fod, ar y cyfan, yn tueddu i ganolbwytio cynydd ar ddarparu data clinigol ac nad yw'n cyfeirio at ateb anghenion gwybodaeth y rhai sydd wedi'u heffeithio gan ganser. Mae cysylltiad agos rhwng gwybodaeth a chymorth o ansawdd uchel â phrofiad cadarnhaol cleifion, eto mae nifer o'r sgoriau gwaethaf a roddir gan gleifion yn nata arolwg CPES Cymru'n ymwneud â'r wybodaeth a roddir iddynt am agweddu allweddol ar eu cyflwr, eu triniaeth a'u gofal. Eto mae amrywiad yn ymatebion y cleifion rhwng y Byrddau lechyd ac mae hyn yn destun pryder.

*Dylid bod wedi esbonio effeithiau tymor hir a thymor byr radiotherapi yn llawn ac yn fanwl i mi - fel y gallwn wneud penderfyniad gwybodus cyn bwrw ymlaen.
(Claf. Arolwg CPES Cymru 2014. 2014)*

7.12 Cadarnhawyd pwysigrwydd gwybodaeth a chymorth gyda sicrwydd ansawdd i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan ganser yn yr ymateb ysgrifenedig i'r ymchwiliad a gynhyrchwyd gan Caroline Walters, Arweinydd Strategaeth Gwybodaeth Canser Macmillan/lechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n amlygu'r dystiolaeth a'r camau sydd eu hangen i wella'r agwedd bwysig hon ar ofal. Mae Macmillan yn galw ar LIC i ddatblygu ymagwedd strategol dros Gymru Gyfan gyda sicrwydd ansawdd i roi gwybodaeth a chymorth cyson, hygyrch sydd wedi'u teilwra i gleifion cancer yng Nghymru.

8. Anghyfartaleddau o fewn poblogaethau a mathau o ganser

8.1 Nod Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC yw i Gymru gael cyfraddau mynchyder, morbidrwydd a goroesi sy'n cymharu â goreuon Ewrop ac i brofiad y claf gael ei ystyried lawn cyn bwysiced ag effeithiolrwydd clinigol a droglwrch y claf.

8.2 Ymateb Macmillan Cymru: Mae ein dadansoddiad o Adroddiad Ategol Technegol CNSAG 2014 ac arolwg CPES Cymru yn gweld bod anghyfartaleddau o fewn poblogaethau a mathau o ganser yng Nghymru.

Amddifadedd - Gwyddom fod effaith canser yn fwy yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Wrth ymateb i arolwg CPES Cymru, atebodd cleifion yn y grwpiau o amddifadedd mwyaf yn llai cadarnhaol i'r rhai yn y grwpiau â llai o amddifadedd, yn enwedig ar gwestiynau'n ymwneud ag anghenion gwybodaeth, p'un a gafwyd gwybodaeth hawdd ei deall am sgil effeithiau, gwybodaeth am hunangymorth a grwpiau cymorth. Mae hwn yn faes cymhleth ac mae angen ystyriaeth ychwanegol ar y grŵp hwn cyn, yn ystod ac ar ôl eu triniaeth. Mae'r canlyniadau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth briodol yn hygrych i bob grŵp mewn amrywiaeth o fformatau.

Mathau/grwpiau o diwmor - O ran ymatebion gan gleifion oedd â thiwmorau o fathau gwahanol, cleifion â chanser y fron oedd fwyaf tebygol o fod yn gadarnhaol am eu gofal a'u triniaeth a chleifion â chanserau sarcoma, yr ysgyfaint ac wrolegol oedd fwyaf tebygol o roi sgoriau gwael. Mae data arolwg CPES yn awgrymu gwahaniaethau mewn profiad hefyd rhwng cleifion sydd wedi cael diagnosis canserau prinnach a mwy cyffredin.

Grwpiau cyffredinol - Mae canlyniadau arolwg CPES yn dangos bod cleifion a ddechreuodd eu triniaeth 5 mlynedd a mwy yn ôl yn llai cadarnhaol am eu profiad na'r rhai a ddechreuodd eu triniaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, roedd cleifion a oedd â chyflyrau croniog eraill ar y cyfan yn llai cadarnhaol am eu profiad. At hynny, roedd cleifion dros 75 mlwydd oed nid yn unig yn llai cadarnhaol ond yn ymddangos yn llai tebygol o fod â Gweithiwr Allweddol. Mae'r meysydd sy'n achosi pryder yn ymwneud â threfniadau ar gyfer asesu a chynllunio gofal, pennu Gweithiwr Allweddol a darparu gwybodaeth i'r grwpiau hyn.

Rhaid i'r lefel hon o anghyfartaledd ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl a effeithiwyd gan ganser ynghyd â'r amrywiaeth o ran cyflawni ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru gael eu hystyried yn fanylach a rhaid gweithredu'n benodol i sicrhau bod gwelliannau yn y meysydd allweddol hyn yn cael eu cyflawni.

8.3 Byddai cyfeiriad ac arweiniad strategol eglur gyda chymorth proses bolisi gyffredinol ar gyfer Cymru gyfan a strwythur cynorthwyol ar gyfer cynllunio, atebolrwydd a pherfformiad yn helpu i leihau anghyfartaleddau a sicrhau bod yr ymrwymiadau a wnaed eisoes yn cael eu cyflawni'n gyson ar gyfer pob grŵp o gleifion ledled Cymru.

9. Casgliad.

Mae Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser LLC yn fframwaith pwysig ac mae'n pennu cyfeiriad a gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau canser yng Nghymru. Mae'n ein galluogi i edrych ar amrywiaeth o fesurau o ran cyflawni triniaeth a gofal canser o ansawdd uchel. Er i ychydig o gynnydd gael ei wneud wrth ei weithredu mae cryn waith i'w wneud eto er mwyn cyflawni'r dangosyddion canlyniad a amlygwyd ac fel bod y weledigaeth gyda'r orau yn Ewrop. Mae bylchau arwyddocaol rhwng y weledigaeth a'r targedau a nodwyd yn y ddogfen a'r cyflawni a'r gweithredu ar draws Byrddau lechyd yng Nghymru. Mae diffyg eglurder a chysylltedd gweithredol yn gwaethygur sefyllfa fel bod llai o atebolrwydd a thyloywder.

Nid dewis ychwanegol yw gofal sy'n rhoi'r person yn y canol, mae'n greiddiol er mwyn cyflawni gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Rhoi cleifion wrth graidd gofal canser yw'r ateb i'r nifer

cynyddol o bobl sydd ag angen gofal a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Mae strwythur proses a chymorth cyffredinol dros Gymru gyfan ar gyfer cynllunio, atebolrwydd a pherfformiad, gan leihau'r amrywiaeth sydd rhwng Byrddau lechyd a safleoedd ysbyty; lleihau'r anghyfartaleddau ym mhrofiad cleifion sydd ag amrywiol fathau o diwmor a dysgu gan brofiad cleifion yn gamau allweddol tuag at gyflawni'r safon gofal uchaf i bawb sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru.

Mae Ymchwiliad y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol yn amserol ac mae angen gweithredu ar frys gan LIC a Byrddau lechyd. Mae angen i LIC a Byrddau lechyd ailffocysu, rhoi arweiniad cadarn a chynyddu cyflymder y newid er mwyn gwneud cynnydd sylweddol wrth weithredu'r cynllun uchelgeisiol hwn a symud ymlaen fel mai Cymru yw'r wlad orau yn Ewrop, fel y nodwyd yng Nghynllun Cyflawni ar gyfer Canser LIC, a hynny erbyn 2016

¹Ffynhonnell: Dadansoddiad mewnol gan Intelligence & Research, Corporate Development Directorate, yn seiliedig ar ffigurau gan: Maddams J et al. (2008) Cancer prevalence in the United Kingdom: Estimates for 2008. British Journal of Cancer.

- Asesu a chynllunio gofal yn cael ei weithredu i bawb sy'n byw gyda chanser
- Gwella'r wybodaeth a'r cymorth er mwyn annog hunanreoli
- Dehongli a gweithredu rôl y gweithiwr allweddol yn gyson ledled Cymru
- Mwy o ddealltwriaeth gan gleifion o rôl y gweithiwr allweddol
- Crynodeb diwedd triniaeth wedi'i anfon at feddygon teulu'r cleifion
- System ôl-driniaeth sy'n rhoi'r person yn fwy yn y canol i gynorthwyo'r rhai sydd wedi goroesi canser.

Cydlynun Gofal

Mae pobl yn dweud wrthym eu bod eisiau i'w gofal fod wedi'i gydlynun effeithiol, ar draws gwahanol rannau'r sector statudol a'r sector gwirfoddol yn ystod ac ar ôl triniaeth. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen cydlynun'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well a rhwng gofal aciwt a sylfaenol. Dylid rhoi sylw arbennig i adegau pontio megis adeg diagnosis, ar ddiwedd y driniaeth a phan fydd cleifion yn nesáu at ddiwedd eu bywyd.

Mae Nyrssys Arbenigol Clinigol (CNS) a gweithwyr iechyd yn chwarae rhan bwysig wrth gydlynun'r gofal. Fodd bynnag, gwyddom nad oes mynediad cyfartal i CNSs a bod dystiolaeth fod amser nyrssys arbenigol yn cael ei golli. Gwyddom hefyd mai'n ddarniog ac yn anghyson y mae rôl y gweithiwr allweddol yn cael ei gweithredu ac nad yw nifer o gleifion yn ymwybodol o'r cymorth y gallant ddisgwyl ei dderbyn gan eu gweithiwr allweddol.

Rydym eisiau gweld:

- Ymrwymiad i wella cynllunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwella cydgynllunio gofal cleifion unigol ar draws gwasanaethau gofal aciwt a sylfaenol gan gynnwys y sector gwirfoddol
- Cymorth ychwanegol i bobl ar adegau pontio allweddol
- Data am ddarpariaeth nyrssys arbenigol clinigol (CNSs) ledled Cymru
- Ymchwil i rôl y CNSs ac i ba raddau mae cydlynun anghenion gofal yn digwydd
- Monitro mesurau canlyniadau gweithredu rôl y gweithiwr allweddol.
- Defnyddio'r canfyddiadau i lywio'r arferion i helpu i asesu'r ffordd orau o ddefnyddio adnoddau.

Rhoi Gofal ar Derfyn Oes

Gwyddom fod dros 60% o'r bobl dweud yr hoffent farw gartref ond y sefyllfa sydd ohoni yw bod dros 60% o bobl yng Nghymru yn marw yn yr ysbyty. Gwyddom hefyd fod pobl yn poeni y byddant mewn poen ar derfyn eu bywydau. Mae cymorth clinigol arbenigol yn allweddol wrth sicrhau bod terfyn oes pobl heb boen a symptomau. Hefyd dylai gofalwyr a theuluoedd dderbyn y cymorth a'r gofal sydd eu hangen arnynt.

Rydym eisiau gweld:

- Mwy o bwyslais ar ddarparu gwasanaethau mewn lleoliadau cymunedol gydag adnoddau priodol i gyflawni hyn
- Mwy o integreiddio cymorth ar draws pob corff o fewn a'r tu allan i'r sector cyhoeddus
- Pobl yn cael cymorth i gael sgyrsiau am eu dymuniadau ar derfyn eu hoes.
- Dylid dechrau sgwrs ledled Cymru i annog pobl i drafod eu dymuniadau a'u barn am ofal ar derfyn eu hoes.



Gwella Gwybodaeth

Mae pentwr o ddata archwiliadau'n cael ei gasglu, ond rydym eisiau sicrhau bod gan gleifion y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth a'u gofal cancer, a bod Byrddau Iechyd yn gallu asesu a gwella eu gwasanaethau i gleifion cancer. Hefyd mae angen data ar Lywodraeth Cymru i'w galluogi hi a'r cyhoedd i ddal Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif.

Rydym eisiau gweld data ystyrlon sy'n berthnasol i brofiad cleifion, ansawdd y gwasanaeth a chanlyniadau iechyd yn cael eu casglu, eu coladu ac yn sbardun i weithredu.

Rydym eisiau gweld:

- Byrddau Iechyd Lleol yn gweithredu ar ganfyddiadau Arolwg o Brofiad Cleifion Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru er mwyn gwella'r gofal a'r cymorth i bobl a'u teuluoedd.
- Nodi'r mesuriadau canlyniad penodol ar gyfer profiad cleifion a'u cynnwys yn y fframwaith ansawdd newydd.
- Data a gwybodaeth wedi'u cyflwyno mewn fformat tryloyw a hawdd ei deall fel bod pawb, gan gynnwys rhai wedi'u heffeithio gan ganser, yn deall y wybodaeth.
- Creu diwylliant cefnogol yn y GIG ar gyfer dysgu o brofiad cleifion ac asesu a gwella ansawdd y gwasanaethau.
- Casglu data am ddiagnosis metatastig a rheolaidd fel y gellir cynllunio a chyflawni triniaeth a chymorth i'r grŵp hwn yn effeithiol
- Rhoi cymorth i fentrau fel bod gwybodaeth hygrych ar gael i gleifion ynghylch dewisiadau triniaeth a gofal a'u hargaeledd.

Targedu Ymchwil

Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad ym maes ymchwil cancer dros y blynnyddoedd gyda nifer o aelodau'r Cyngor Cymru yn cyfrannu i ddatblygiadau allweddol o ran canfod a thrin y clefyd. Mae datblygu Banc Cancer Cymru a Pharc Geneteg Cymru yn gampau allweddol y dylai Cymru fod yn falch ohonynt.

Nawr hoffai'r Cyngor Cymru weld mwy o ffocws ar ddatblygu strategaeth ymchwil cancer i Gymru sy'n rhoi cyfeiriad eglur i'r rhai ym maes ymchwil cancer o ran sut gallant gyfrannu i weithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer yn llwyddiannus.

Rydym eisiau gweld:

- Pobl yn cael gwybodaeth ddigonol ac yn cael mynediad i'r treialon clinigol priodol gan fod yn hyn allweddol ar gyfer ymchwil glinigol a gwella canlyniadau
- Eglurder a ffocws o ran y seilwaith, y rhwydweithiau a'r ffrydiau ariannu sy'n rhoi cymorth i ymchwil cancer yng Nghymru
- Mwy o gymorth i ymchwil i ofal lliniarol ac ar ddiwedd bywyd yn ogystal â goroesi a materion sy'n gysylltiedig â byw gyda chanser.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:-

Susan Morris, Cadeirydd, Cyngor Cymru SMorris@macmillan.org.uk **Ffôn: 01656 867974**

Cyngor Cymru: Gofal Cancer y Fron, Ymchwil Cancer Cymru, Ymchwil Cancer y DU, Clic Sergeant, Hosbisau Cymru, Cymorth Cancer Macmillan, Maggie's, Marie Curie, Myeloma UK a Tenovus.
<http://www.walescanceralliance.org.uk>

Inquiry into the progress made to date on
implementing the Welsh Government's Cancer
Delivery Plan

Evidence from Betsi Cadwaladr UHB – CDP 17

Ein cyf / Our ref: GL/DH/1311/915

Dyddiad / Date: 4 Ebrill 2014

Clerc i'r Pwyllgor
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

HSCCommittee@wales.gov.uk

Annwyl Syr/Madam

Ymchwiliad i Weithrediad Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru

Diolch yn fawr am y gwahoddiad i roi adborth ar Gynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru. Gobeithiaf y bydd y wybodaeth a ganlyn o fudd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r ymateb hwn yn adlewyrchu safbwytiau'r Bwrdd Iechyd a Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru. Wrth wneud hynny, mae'n adlewyrchu sylwadau o safbwyt darparwr GIG, comisiynydd ac eiriolwr cleifion.

Trosolwg

Er ei bod yn wir y caiff y rhan fwyaf o'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser ei gyflawni erbyn 2016, mae hefyd yn debygol y bydd agweddu ar y cynllun yn dal i fod yn heriol ac mae'n bosibl na chaiff rhai ohonynt eu cyflawni. Nid yn unig y mae'r cynllun yn datgan bod cyfradd amlder cancer yn cynyddu, mae hefyd yn cyfeirio at yr hinsawdd economaidd heriol a oedd yn bodoli, nid yn unig ar adeg cyhoeddi, ond sy'n dal i fodoli ar adeg rhoi'r ymateb hwn. Felly mae'n rhaid bod pryder nad oes modd cyflawni rhai agweddu ar y cynllun o'u gosod gyferbyn â chyd-destun blaenoriaethau lluosog a gostyngiad mewn cyllid.

Yn ein barn ni, dylai mynediad at driniaeth cancer ar sail tystiolaeth fod ar gael yn gyson i bobl Cymru ac wrth i'r dystiolaeth ddod i'r amlwg i gefnogi therapiâu newydd, dylai'r rhain gael eu mabwysiadu cyn gynted â phosibl yng Nghymru. Yr heriau allweddol i Gymru a'r Cynllun Cyflawni yw cyfeirio/rhoi diagnosis cynnar, gofal diwedd oes a thegwch. Mae cael diagnosis cynnar yn allweddol i ganlyniadau da o ran cancer ac ar hyn o bryd, mynediad cyflym at wasanaethau diagnostig sy'n cynnig yr her fwyaf, efallai.

Mae'r cynllun wedi cyflawni llawer o ran gofal diwedd oes, ond dylid nodi bod 'diwedd oes' yn ymddangos mewn cynllun cancer. Ein pryder o hyd, er hynny, yw bod angen i ddiwedd oes ymddangos yn yr holl gynlluniau sy'n gysylltiedig ag afiechyd cronig.

Mae tegwch ar draws Cymru yn dal i fod yn her, ac er bod y cynllun yn ceisio mynd i'r afael â hyn, mae'n dal i fod yn faes lle y gallai fod yn anodd cyflawni erbyn 2016. Un enghraifft o hynny fyddai nifer y Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) ar gyfer cyffuriau canser lle mae amrywio rhwng ardaloedd gwahanol o Gymru.

Dangosyddion Canlyniadau a Mesurau Perfformiad Penodol – Atodiad 3 – Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser

Nid yw'n glir p'un a all y cynllun dylanwadu ar leihad o ran y gyfradd o gynnydd mewn achosion o ganser o fewn y terfyn amser penodol. Bydd lleihad mewn achosion o ganser yn dibynnu ar newidiadau o ran ffordd o fyw, yn bennaf e.e. gwahardd ysmegu ac mae'n annhebygol y bydd y manteision o'r datblygiadau hyn i'w gweld ar unwaith. Wedi dweud hynny, nodir bod mwy o bwyslais wedi'i roi ar yr agenda atal ar ôl cyhoeddi'r cynllun ac mae hyn i'w groesawu.

Mae'n galonogol gweld bod lleihad sylweddol mewn marwolaethau, ochr yn ochr â chynnydd mewn cyfraddau goroesi 1 blwyddyn a 5 mlynedd wedi codi yng nghyfnod y cynllun a chredir y gall y gwelliant hwn barhau. Mae hyn ar ei amlycaf yng Ngogledd Cymru lle mae'r baich mwyaf o ran cancer yng Nghymru. Er hynny, mae cyfraddau goroesi 1 blwyddyn a 5 mlynedd ymhliith y rhai gorau sydd i'w cael yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant hwn o ran cyfraddau goroesi yn cyd-fynd â chydymffurfiaeth ag amseroedd aros am driniaeth cancer ac mae hi wedi bod yn anodd sicrhau bod y rhain yn gyson ers cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni. Wedi dweud hynny, mae naw claf ym mhob 10 ohonynt yn dal i gael eu triniaeth o fewn y paramedrau targed. Yn ein barn ni, mae methiant i gyrraedd y targedau hyn yn gyson ar draws Cymru, yn gysylltiedig i raddau helaeth â chael diagnosis cynnar a'r annhegwch y soniwyd amdano yn gynharach.

Mae'r pwyntiau olaf uchod hefyd yn adlewyrchu hynt y cancer ar adeg cael diagnosis ac wrth reswm, mae hyn yn dylanwadu ar y mesur perfformiad, bod cleifion fwyfwy yn cael diagnosis bod arnynt glefyd ar gyfnod cynnar. Efallai y bydd hwn yn fater anodd i'w wella'n sylweddol o fewn terfyn amser y cynllun gan y bydd yn dibynnu ar y cyhoedd i gyflwyno eu hunain yn gynnar i ofal cychwynnol a chyfeirio prydion at wasanaethau cancer yn ogystal â mynediad gwell at wasanaethau diagnostig.

Yn olaf, mae'r cynllun wedi llwyddo i sicrhau bod gweithgarwch treialon clinigol yn cael ei gynnal, bod data am farwolaethau 30 diwrnod ar ôl triniaeth yn cael ei gasglu ac y bydd gan bob claf weithiwr allweddol. O ran y ddwy eitem olaf, erbyn 2016, credwn ei bod yn rhesymol disgwyl, nid yn unig i'r holl gyfraddau marwolaeth 30 diwrnod ar ôl triniaeth gael eu coladu, ond hefyd i gael eu harchwilio. O ran Gweithiwr Allweddol, nid yn unig y bydd gan bob claf weithiwr allweddol ond bydd ganddynt hefyd un sy'n cael mwy o effaith ar eu gofal.

Crynodeb o Ganlyniadau- Atodiad1- Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser

Canlyniad 1- Mae pobl yn ymwybodol o'u risg o ganser ac yn cael eu cefnogi i leihau eu risg o ganser trwy ddewisiadau iach o ran ffordd o fyw

Ers cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni, mae'r data'n awgrymu bod effaith gyfyngedig wedi bod ar ymddygiad y cyhoedd o ran addasu at ffordd o fyw. Wedi dweud hynny, ar lefel leol mae hefyd yn wir bod cynnydd sylweddol wedi bod o ran ymdrechion y GIG i fynd i'r afael â'r materion hyn. Felly mae'n bosibl y daw newid mwy sylweddol i'r amlwg o ganlyniad i'r cynllun hwn. Yng Ngogledd Cymru, adlewyrchir hyn gan ymgyrchoedd newydd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am ddefnyddio cludiant cyhoeddus a chyflwyniadau atal canser mewn ysgolion gwladol.

Canlyniad 2- Canfod canser yn gyflym lle mae'n codi neu'n ailgodi.

Fel y soniwyd yn flaenorol, dyma'r agwedd ar y cynllun lle mae'r her fwyaf ar hyn o bryd. Mae mynediad at ofal cychwynnol yn fwyfwy heriol yn yr un modd â mynediad uniongyrchol at wasanaethau diagnostig o ofal cychwynnol. Yn ogystal, mae'r ffaith bod mwy o wasanaethau ar gael 24 awr y dydd trwy gydol y flwyddyn yn heriol, ac unwaith eto, mae'n anodd sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn fwy lleol.

Y teimlad yw nad oedd yr agwedd hollbwysig hon ar y cynllun, efallai, wedi cael y pwyslais y dylai fod wedi'i gael ac mae'r effaith wedi'i thanbrisio. Yr agweddau hyn ar y llwybr canser sy'n destun blaenoriaethau gwrthwynebol eraill a phwysau cyllid yn fwy nag unrhyw agweddau eraill ac mae angen mynd i'r afael â hyn yn ail hanner hyd bwriadedig y cynllun.

Canlyniad 3- Pobl yn cael triniaeth a gofal cyflym ac effeithiol fel eu bod yn cael y cyfile gorau posibl o gael iachâd

Yn 2014, mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser wedi cynnal momentwm cyflymder triniaeth a mynediad at driniaeth effeithiol ar sail tystiolaeth. Er bod mater amseroedd aros o ran cancer eisoes wedi'i drafod, mae'n werth nodi bod pwyslais newydd yn cael ei roi ar Adolygu Cymheiriaid – proses sy'n rhan uniongyrchol o'r cynllun. Mae'r broses hon erbyn hyn yn mynd i'r afael â'i phedwerydd math mawr o ganser ac erbyn 2016, bydd yr holl brif fathau o ganser wedi bod yn destun i'r broses a chaiff y garfan gyntaf o fathau o ganser eu hailasesiad cyntaf.

Dylai adolygu gan gymheiriaid ochr yn ochr â datblygiadau pellach yn y fframwaith perfformiad canser sicrhau bod y Cynllun ar gyfer Cyflawni yn sicrhau bod asesiadau ansawdd parhaus a gwell yn cael eu cynnal o ran gwasanaethau cancer.

Canlyniad 4- Pobl yn cael eu rhoi wrth wraidd gofal cancer gan nodi eu hanghenion a'u bodloni fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ddigonol a'u hysbysu, gan allu rheoli effeithiau cancer

Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser wedi bod yn llwyddiannus o ran rhoi mwy o bwyslais ar natur holistaidd gofal cancer, ac yn sicr, ar lefel leol mae ymdrechion sylweddol yn cael eu gwneud gyda'r trydydd sector i fynd i'r afael â materion y mae'r unigolyn yn ganolog iddynt. Er nad yw'r darnau amrywiol o waith wedi'u cwblhau eto, mae ffocws a momentwm i fod â modelau gofal sefydledig a chynaladwy erbyn 2016.

Yng Ngogledd Cymru, mae hyn yn amlwg mewn prosiectau sy'n ymwneud â chyflwyno Gweithiwr Allweddol, cynllunio gofal holistaidd ac adsefydlu.

Canlyniad 5- Pobl sy'n dod i ddiwedd eu hoes sy'n teimlo eu bod yn cael gofal da a'u bod yn rhydd o boen a symptomau

Mae cryn gynnydd wedi'i wneud hyd yn hyn o ran darparu gofal lliniarol gan gynnwys agweddu ar ofal sy'n gysylltiedig â'r trydydd sector a gweithio saith niwrnod o'r wythnos. Mae croeso i'r pwyslais ar weithio di-dor ar draws pob sector yn y GIG a'r trydydd sector, ac yn sicr, mae'n amlwg i'w weld mewn arferion o ddydd i ddydd yng Ngogledd Cymru.

Casgliad

Nodwyd bod yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal hanner ffordd trwy gylch oes Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru, ac fel mae'n digwydd, mae rhai agweddu ar y cynllun yn dal i fod ar y gweill.

Mae'r themâu yn y cynllun yn dal i fod yn ddilys yn ogystal â llawer o'r canlyniadau a nodir yn yr atodiadau amrywiol, ac i'r perwyl hwn, mae'r cynllun yn fframwaith cyd-destunol pwysig i wella darpariaeth gofal cancer.

Mae cynnydd gyferbyn â'r cynllun yn amlwg yn enwedig o ran sicrhau diogelwch ac ansawdd triniaeth cancer a gofal diwedd oes. Mae cynnydd yn amlwg hefyd o ran gofal holistaidd y mae'r unigolyn yn ganolog iddo a chaiff llawer o ddatblygiadau eu rhoi ar waith yn llawn erbyn 2016.

Mae'r prif heriau o ran cyflwyno'r cynllun yn dal i fod ar flaen y llwybr cancer – atal a diagnosis cynnar. Er eu bod yn ganmoladwy, efallai y bydd yn cymryd mwy o amser i'r amcanion atal arwain at ganlyniadau ac efallai na fydd gwelliant go iawn o ran baich afiechyd am flynyddoedd lawer yn hytrach nag erbyn 2016. Fodd bynnag, y pryder pennaf yw cael diagnosis cancer cyflym - dyma'r ffactor gyfyngol y mae angen ei hystyried ymhellach os bydd y cynllun yn cyflawni ei amcanion ehangach. Yng Ngogledd Cymru, adlewyrchir hyn gan ymgyrchoedd newydd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am ddefnyddio cludiant cyhoeddus a chyflwyniadau atal cancer mewn ysgolion gwladol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Yr eiddoch yn gywir

Cyfans

GEOFF LANG
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

[Inquiry into the progress made to date on implementing the Welsh Government's Cancer Delivery Plan](#)

Evidence from Velindre NHS Trust – CDP 31

Inquiry into progress made to date on implementing the Welsh Government's Cancer Delivery Plan and whether Wales is on course to achieve the outcomes and performance measures, as set out in the Cancer Delivery Plan, by 2016

Response from Velindre NHS Trust

Velindre NHS Trust comprises of 2 main operating Divisions namely:

- Velindre Cancer Centre, a specialist provider of non surgical cancer treatments
- Welsh Blood Services

In addition Velindre NHS Trust is 'Host' to a number of external organisations:

- National Specialist Advisory Group for Cancer (NSAGC)
- Cardiac Networks Co-ordinating Group of Wales
- National Collaborating Centre for Cancer
- NISCHR Clinical Research Centre
- NHS Wales Informatics Services (NWIS)
- Wales Shared Services Partnership (NWSSP)

Velindre NHS Trust's response to the 'Inquiry into progress made to date on implementing WG's Cancer Delivery plan' will seek to provide comments under each of the headings as per the terms of reference of the Inquiry.

1. Is Wales on course to achieve the outcomes/performance measures as set out in the Cancer Delivery plan 2016

There has been good progress in some of the key areas within the Cancer Delivery plan. For example the Wales results from the recent Patient Experience Survey, run with the help of Macmillan, showed 89% patients rated their care as excellent or very good. In addition 88% of patients have been allocated a Clinical Nurse Specialist (CNS) and 86% patients said they had received the right amount of information. The Velindre results have been further analysed and show that they are very favourable in comparison to some of the best cancer centres in England and in fact in some domains Velindre's

scores exceeded those of English cancer centres. However it is recognised the results were variable by organisation and cancer site, thus the focus between now and 2016 is to address the variability and ensure consistency for patients irrespective of where they receive their care or which cancer they have.

Other examples of positive progress include:

- The introduction of peer review which is driving up standards,
- Good recruitment rates into clinical trials
- Clinical engagement, especially with work to review the patient pathways, with some very good examples at both the South Wales Cancer Network level but also within Velindre Cancer Centre e.g. work to reduce the pathway for head and neck patients receiving Radiotherapy with a reduction in waiting times from 28 to 14 days without any additional resources
- Increasing numbers of patients consenting to their tissue being collected for the Wales Cancer Bank
- Creation of specialised Multi Disciplinary Team meetings (MDT) for metastatic cancers for some cancer sites, thereby ensuring patients with metastatic disease or diagnosis of secondary cancers are given the same care as those with first diagnosis.
- An increasing focus across Wales on the “survivorship” agenda and ensuring patients are living well with their cancer

Some of the key remaining challenges are:

- Continue to manage demand with the increasing incidence and patients surviving longer with cancer
- Diagnosing patients earlier – as this takes time before long term benefits are seen
- Improving Cancer information systems to improve communications between providers of care, including primary care, and to ensure good quality data to measure the outcomes

2. Progress made in reducing the inequalities gap in cancer incidence and mortality rates

Reducing the inequalities will have a long term effect on survival and mortality. It is important that NHS works with the public to seek to change behaviours and reduce risk of incidence of cancer. There are clear roles for Public Health Wales and Primary care in leading work in this area. It may be worthwhile considering whether targets/outcome measures for these organisations would be helpful in the achievement of this by 2016.

It is essential that Wales keeps up with new treatment developments in order to ensure an equitable access to clinical trials for patients and to

continue to ensure that Wales recruits and retains high calibre clinical staff. We welcome the WG review into Access of new Technologies.

We are aware that the IPFR process is currently under review and we welcome this, as the current process can cause stress for patients, their families and the clinical staff caring for the patients and to avoid any perceived inequity.

The results of the Patient Experience Survey showed some variations in access to Key workers and the provision of care plans and we believe it'd be helpful if Wales is to achieve progress in this area by 2016, if there was some policies/agreement around these topics.

3. The effectiveness of cancer screening services and the level of take-up across the population of Wales, particularly the harder to reach groups

In order to achieve the targets by 2016 there is need to continue to improve the national focus on prevention and we recognise the important role screening services play in prevention and early diagnosis.

Given the nature of the Trust screening service does not have a direct impact for the organisation. However VCC does recognise that it can, like all organisations, play a part in encouraging patients and their relatives to take up screening opportunities. The challenge is to reach the "harder to reach" communities.

VCC supports the "making every contact count" type initiative and would also welcome and support the development of some simple consistent messages for all to use.

4. Whether patients across Wales can access the care required (for example, access to diagnostic testing or out-of-hours care) in an appropriate setting and in a timely manner;

We recognise that reduced waiting times have a direct impact on outcomes and survival.

VCC has made significant progress over last few years in the reduction of waiting times for radiotherapy and chemotherapy treatments. For example in 2009 approximately 35% patients received radiotherapy within 28 days (with some patients waiting up to 11 weeks) and this is now 99%.

It is important that there is sufficient capacity in the future to maintain these waiting times – see later section re planning and funding.

The NHS is experiencing high demand for unscheduled care but the Acute Oncology Service (AOS) pilot between ABHB and Velindre Cancer Centre has proven a huge success and had an impact on patient's ability to access the correct type of care in a timely manner.

For example prior to AOS only 16% of the patients received correct investigation for neutropenic Sepsis, but now with AOS in place this has risen to 86%. Similarly following introduction of AOS 85% of patients suspected metastatic spinal cord compression had an MRI within 24 hours, compared to previously only 61%, and the mean time to definitive therapy from MRI has reduced from 50 hours to 24 hours.

Similarly there has been some progress towards 7/7 working so patients have same level of service irrespective of the day but, as across many specialties in the NHS, further work is required in this area between now and 2016. Good examples of the shift towards 7/7 are demonstrated by the all Wales palliative care work which has resulted in 7/7 working in all organisations.

As outlined earlier in this response Wales is reviewing the system of access of new technologies with the aim of ensuring that appropriate, clinically proven treatments/technologies are available to patients in Wales in a timely manner for the population .We welcome this review as we believe it is important for patients to have access to the most appropriate, clinically effective treatments.

With regard to the introduction of new drugs AWMSG have made improvements in their systems which have resulted in a reduction in the average time for an assessment to announcement. However further improvements to the system, including a system for orphan drugs, or drugs for rarer cancers is we believe essential to ensure equity for all patients.

Access to treatment i.e. waiting times are important and VCC welcomes the review of the 31/62 day targets, with the shift to more clinically determined targets. However it is important that the implications of the changes to the target are worked through prior to any formal changes.

Finally with regard to access to care in timely manner the IPFR process has some issues – but as outlined earlier it is under review with the aim of addressing and improving the process and we welcome this review.

5. The level of collaborative working across sectors, especially between the NHS and third sector, to ensure patients receive effective person-centred care from multi-disciplinary teams.

There remains a very good level of collaboration across NHS organisations and with the Third Sector in the provision of cancer services. Examples include:

The Acute Oncology Service (AOS) pilot between VCC and ABHB has shown excellent results due to the high level of collaborative working. It has been shortlisted in NHS Wales Awards under the category of working across organisations.

There are projects funded by Macmillan which involve piloting electronic health needs assessments (e-hna) for patients and the development of care plans and key workers. These type of projects are great examples of work seeking to ensure 'Person centred care' is delivered by the MDT. Similarly Velindre Cancer Centre is working closely with Maggies in the development of a Maggies' centre for patients in south east Wales – again an environment to deliver person centred care.

As outlined earlier in the response the All Wales Palliative care project provides another excellent example of collaborative working between the Third sector and NHS organisations for end of life care.

Recent events run by the South Wales Cancer Network to review lung cancer and colorectal pathways were only successful due to the close working of the organisations involved in delivering care. This type of work now needs to be rolled out across other cancer sites.

With regard to R&D the fact that in Wales research and treatment are delivered as part of a spectrum of care is a strength. Wales has improved access to trials as per the requirement of the cancer Delivery plan but if Wales is to maintain this level of access it requires organisations to continue to improve the way they work together in respect of the timeliness of start up, delivery and application of research. To support this increase in access it is important that there is a clear strategic drive and funding strategy to ensure that ALL patients have access to speedy delivery of research in line with the delivery plan.

6. Whether the current level of funding for cancer services is appropriate, used effectively and provides value for money

In the absence of comparative data it is challenging to comment on whether the current level of funding is appropriate, thus our response to this section will instead focus on the process for allocation of the funding, rather than the amount/level of funds.

In today's financial climate the challenge for NHS Wales is to cope with the increasing demands for cancer services as more patients are diagnosed, more treatments are available and patients are surviving longer with their disease. Linking this to Prudent healthcare providers of cancer services need over coming years to consider potentially ineffective treatments/interventions and the impact on investment

decisions. For example the provision of CNS and good palliative care has been demonstrated to improve the patient experience and in some studies to increase survival and quality of life compared to high cost drug treatments. VCC has a system in place to review deaths of patients within 30 days of SACT /chemotherapy treatments to ensure the clinical appropriateness of potentially high cost drugs, especially at end of life. All organisations should be encouraged to undertake similar reviews and VCC plans to roll it out to Radiotherapy between now and 2016.

Thus when considering investments Radiotherapy and Clinical Nurse Specialist (CNS) may prove more cost effective compared to some end of life medicines – but in Wales there isn't a process currently for the comparative assessments to be undertaken.

Similarly as patients live longer organisations need to develop new models of follow up so patients are less dependant .These models could include more focus on holistic needs through provision of support and rehabilitation.

The Acute Oncology Service (AOS) pilot has shown a reduction in length of stay and unnecessary investigations and hence a cost effective development.

Improved appraisal mechanisms for non drugs and technological interventions are vital to assist in decisions to invest in effective services that provide VFM. As outlined earlier there is currently a review in Wales into this area and we welcome that.

The Cancer Delivery Plan mentions the Health Boards should plan radiotherapy services through the Networks. There is we believe a need to strengthen the commissioning/planning arrangements between HBs and the Trust and that needs to be a focus for all organisations over coming years in order to prevent Wales falling behind other UK and European countries with regard to the development of radiotherapy techniques and capacity.

Developments in stratified medicine means there is a need, we believe, for a policy for the infrastructure of stratified medicine so patients can be selected for treatments on basis that they are more likely to benefit – thus for other patients this may avoid unnecessary treatment or fewer side effects.

With the Cancer Delivery Plan focus on R&D it is, we believe, vital all aspects of R&D funding are reviewed to ensure it is not having a detrimental affect on R&D in cancer services with a complex portfolio of funding streams which are a mixture of recurring and non-recurring.

Finally, it is our belief that the strategic planning of all cancer services could benefit from strengthening, through excellent clinical engagement and a cancer specific focus. As previously outlined there is a need for long term strategic capital planning, especially for radiotherapy equipment, so that Wales doesn't lag behind. Recent decisions e.g. to support development of SBRT/SRS services in Wales are a welcome step forward.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd
Dyddiad:	Dydd Mercher, 4 Mehefin 2014
Amser:	09.16 – 11.49

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_04_06_2014&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**David Rees AC (Cadeirydd)
Leighton Andrews AC
Rebecca Evans AC
Janet Finch-Saunders AC
Elin Jones AC
Darren Millar AC
Lynne Neagle AC
William Powell AC
Gwyn R Price AC
Lindsay Whittle AC**

Tystion:

**Mark Drakeford AC, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
Dr Sandra Sandham, Llywodraeth Cymru
David Thomas, Llywodraeth Cymru**

Staff y Pwyllgor:

**Llinos Madeley (Clerc)
Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)
Philippa Watkins (Ymchwilydd)**

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod.](#)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor, y Gweinidog a'i swyddogion a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Kirsty Williams.

2 Ymchwiliad i wasanaethau orthodontig yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 3

2.1 Bu'r Gweinidog yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ofyn i'r Athro Stephen Richmond ystyried yr angen am isafswm oedran ar gyfer atgyfeirio at wasanaethau orthodontig, ar wahân i'r 2% o blant a ddyfynnwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol fel rhai sydd wedi'u nodi i fod ag angen am atgyfeirio cynnar.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd blaenorol.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5 ac o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) ar gyfer eitem 6

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Ymchwiliad i'r mynediad at dechnolegau meddygol – ystyried y materion allweddol

5.1. Bu'r Pwyllgor yn trafod y materion allweddol sy'n codi o'r ymchwiliad.

5.2 Nododd y Pwyllgor ei farn bod angen ymchwilio ymhellach i fynediad at dechnolegau meddygol o fewn gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol cyn cwblhau'r ymchwiliad hwn. Cytunodd y Pwyllgor i wahodd cynrychiolwyr o Gymdeithas Feddygol Prydain, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol, ac unrhyw sefydliadau perthnasol eraill, i ystyried y materion hyn ymhellach.

6 Ystyried blaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer tymor yr hydref 2014

6.1 Cytunodd y Pwyllgor:

- I gynnal ymchwiliad i gyffuriau penfeddwol cyfreithlon yn nhymor yr hydref. Bydd y Pwyllgor yn ystyried ei ddulliau mewn perthynas â'r ymchwiliad maes o law;
- i wahodd y Comisiynydd Pobl Hŷn i roi tystiolaeth yn ystod tymor yr hydref, yn arbennig i drafod ei hadolygiad o ofal preswyl a'i hadroddiad blynnyddol;
- i wahodd y Prif Swyddog Meddygol i ddod i sesiwn graffu gyffredinol yn nhymor yr hydref fel rhan o raglen y Pwyllgor o graffu ar Brif Weithwyr Iechyd Proffesiynol Cymru;
- i wahodd swyddogion y Llywodraeth i roi briff ffeithiol yn nhymor yr hydref ar y rheoliadau sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, unwaith y bydd rheoliadau drafft yn cael eu cyhoeddi;
- i godi, ymhlieth pethau eraill, y materion a ganlyn gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y sesiwn graffu gyffredinol a drefnwyd ar gyfer 16 Gorffennaf:
 - adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar reoli cyflyrau cronig;
 - recriwtio, cadw a hyfforddi meddygon teulu;
 - adroddiadau diweddar ar amseroedd aros ar gyfer llawdriniaeth ar y galon;
- ystyried materion ynghylch proses gwyno GIG Cymru, i'w lywio'n benodol gan yr adroddiad ar yr Adolygiad o Ymdrin â Phryderon a Chwynion yn GIG Cymru, o dan arweiniad Keith Evans, unwaith y bydd yr adroddiad ar gael.

Tim Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ymchwiliad i'r cynnydd hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd i Gynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru, cynhaliodd tîm Allgymorth y Cynulliad bum gweithdy rhanbarthol gyda chleifion cancer ledled Cymru. Cafodd y gweithdai eu cynnal am nifer o resymau, gan gynnwys:

- rhoi cyfle i gleifion cancer, sydd â phrofiad uniongyrchol o'r Cynllun Cyflenwi ar gyfer Canser, rannu eu profiadau;
- paratoi cyfranogwyr ar gyfer grŵp ffocws gydag Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- llywio'r sesiynau dystiolaeth ffurfiol gyda thystion, gan gynnwys y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r dystiolaeth a gasglwyd, gan gynnwys cyfraniadau penodol gan y grwpiau ffocws a'r cyfranogwyr.

Nifer y cyfranogwyr:

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

(1 Mai 2014, Coleg Llandrillo, Llandrillo yn Rhos)

Roedd 13 o gyfranogwyr yn bresennol, gan gynnwys cleifion, cyn-gleifion, gofalwyr, gwirfoddolwyr a Hwylusydd Cynnwys Defnyddwyr Macmillan. Roedd cymysgedd o gyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd o ogledd Cymru gyfan yn bresennol.

Mae Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru yn cynnwys tri 'grŵp ardal' sy'n seiliedig ar y tri Ysbyty Cyffredinol Dosbarth yng Ngogledd Cymru – Gwynedd, Glan Clwyd a Maelor Wrecsam. Mae 'Grŵp Strategol' trofwaol yn cyfarfod yn Llandrillo yn Rhos. Mae pob grŵp yn cyfarfod i drafod pynciau cyfredol sy'n effeithio ar gleifion cancer yng ngogledd Cymru ac yn sicrhau bod barn cleifion, cyfeillion a theuluoedd yn cael ei chlywed.



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Grŵp NETs Natter

(7 Mai 2014, canolfan gynadledd, Manor Way, Caerdydd)

Roedd cyfanswm o 25 o gyfranogwyr yn bresennol, gan gynnwys 18 o gleifion, pum gofalwr a thri aelod o staff.

Grŵp Crefftau Ysbyty Singleton

(8 Mai 2014, Ysbyty Singleton, Abertawe)

Roedd y grŵp yn cynnwys pedwar cyfranogwr benywaidd, dwy ohonynt â chanser y fron, un ohonynt â chanser yr ysgyfaint a chanser eilaidd y fron ac un ohonynt â chanser ceg y groth HPV.

Grŵp Cymorth Canser y Fron Gogledd Caerffili

(12 Mai 2014, Canolfan Wybodaeth ac Adnoddau White Rose, Tredegar Newydd)

Roedd y grŵp yn cynnwys saith o gyfranogwyr, pob un ohonynt yn gleifion canser y fron. Roedd tair nyrs/staff cymorth yn bresennol hefyd.

Grŵp Canser Ymddiriedolaeth Bracken

(12 Mai 2014, swyddfeydd Ymddiriedolaeth Bracken yn Llandrindod)

Roedd cyfanswm o ddeg o gyfranogwyr yn bresennol – siaradodd un cyfranogwr ar ran ei bartner sydd â chanser yr ofari, roedd un claf wedi cael canser y fron yn y gorffennol, roedd gan dri chyfranogwr ganser y prostad ac roedd dau gyfranogwr yn bresennol gyda'u partneriaid perthnasol. Roedd gweddill y cyfranogwyr yn gweithio i Ymddiriedolaeth Bracken.



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Nodiadau o'r Grwpiau Ffocws

01. A yw cleifion yn cael eu cefnogi'n ddigonol ac yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar y person (hynny yw, mynediad at Weithiwr Allweddol a chynllun gofal ysgrifenedig, mynediad at wybodaeth ddigonol a chael gofal yn y ffordd fwyaf priodol ar gyfer pob claf)?

A gawsoch Weithiwr Allweddol Penodol neu Nrys Glinigol Arbenigol?



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

Nid oedd rhai cyfranogwyr yn gyfarwydd â'r term 'Gweithiwr Allweddol', ac nid oeddent yn gwybod beth y mae'n ei olygu. Nid oedd cyfranogwyr yn deall ai'r gweithiwr clinigol oedd eu Gweithiwr Allweddol, ac roeddent yn teimlo bod terminoleg wahanol yn cael ei defnyddio gan wahanol ysbytai, sefydliadau a chleifion.

Dywedodd un cyfranogwr, a gafodd diagnosis o ganser y prostad yn 2006–07, ei fod wedi cael Gweithiwr Allweddol a oedd yn gefnogol iawn i ddechrau yn ystod yr ychydig fisoeedd cyntaf ar ôl diagnosis, ond, wrth i amser fynd heibio, daeth y Gweithiwr Allweddol yn fwyfwy anodd cael gafael arno. Roedd wedi cael diagnosis o ganser eto yn 2010 ac nid oedd wedi cael gweithiwr clinigol/allweddol cychwynnol.

Dywedodd gofalwr, yr oedd ei gŵr yn glaf canser a oedd yn cael triniaeth ar draws y ffin mewn dau ysbyty, fod gan y claf oedd Weithiwr Allweddol, ond bod pethau'n cael eu colli rhwng ysbytai ar brydiau, ac nid oedd y Gweithiwr Allweddol bob amser yn ymwybodol o driniaeth ac anghenion y claf. Fodd bynnag, pwysleisiodd y gofalwr fod rhywun ar gael i siarad â nhw ar bob adeg, a bod yr oncolegydd wedi rhoi ei fanylion cyswllt personol iddynt.

Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod cael pwynt cyswllt, boed wedi'i nodi'n Weithiwr Allweddol neu beidio, yn bwysig iawn.

'NETs Natter'

Argaeledd Gweithwyr Allweddol

O'r deunaw o gleifion, roedd naw wedi cael diagnosis o ganser niwroendocrin ar ôl 2012. Nid oedd un o'r cleifion wedi cael Gweithiwr Allweddol ar unrhyw adeg yn ystod ei ofal, er bod un claf wedi cael Nyrs Glinigol Arbenigol yn ystod ei driniaeth yn Lerpwl.

Argaeledd Arbenigwyr Nyrsio Clinigol ac anhawster wrth wneud diagnosis o ganser niwroendocrin

Amlygodd y grŵp nad oes, ar hyn o bryd, unrhyw Arbenigwyr Nyrsio Clinigol niwroendocrin yng Nghymru. Roedd cyfran sylweddol o'r grŵp yn teimlo, er bod symptomau canser niwroendocrin yn debyg i'r mathau eraill o ganser sy'n ymosod ar yr afu a'r coluddyn, fod llawer o nyrsys a chlinigwyr (yn enwedig Ymarferwyr Cyffredinol) yn cael anhawster wrth wneud diagnosis.



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Grŵp Crefftâu Ysbyty Singleton

Argaeledd Gweithwyr Allweddol

Roedd tri o'r pedwar claf wedi cael 'Gweithiwr Allweddol' neu Nyrs Glinigol Arbenigol ddynodedig. Roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch rôl 'Gweithiwr Allweddol' ac ystyr y term. Roedd y cleifion yn teimlo bod llawer o bobl wedi cyfrannu at eu profiad 'gofal', gan nodi bod lefel y gofal y maent wedi'i gael yn Ysbyty Singleton yn ardderchog. Disgrifiodd un claf ei brofiad personol o'r gofal a ddarperir mewn mannau eraill, lle'r oedd wedi teimlo ei bod yn cael ei heidio o'r naill le i'r llall yn ystod ei thriniaeth cemotherapi. Unwaith iddi gyrraedd Singleton, dywedodd bod y staff wedi gwneud iddi deimlo'n bwysig ac fel person unwaith eto.

Grŵp Cymorth Canser y Fron Gogledd Caerffili

Diffyg gofal sy'n canolbwytio ar yr unigolyn

Roedd rhai cleifion yn teimlo nad oeddent wedi cael gofal yn canolbwytio ar yr unigolyn hyd nes iddynt ymuno â Grŵp Cymorth Canser Macmillan Gogledd Caerffili. Nododd cleifion eraill eu bod wedi cael gofal rhagorol yn canolbwytio ar yr unigolyn ac wedi cael cyswllt uniongyrchol â nyrs canser Macmillan cyn gynted ag y cawsant ddiagnosis yn yr ysbyty.

Argaeledd Gweithwyr Allweddol

Roedd dau o'r cleifion wedi cael diagnosis o ganser cyn i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser gael ei weithredu yn 2012. Cafodd y pump arall ddiagnosis ar ôl 2012. Cadarnhaodd dau glaf eu bod wedi cael Gweithiwr Allweddol penodol; roedd gweddill y grŵp wedi cael Nyrs Arbenigol Clinigol wedi'i dyrannu iddynt. Roedd un claf wedi llwyddo i newid Gweithiwr Allweddol oherwydd ei bod yn teimlo bod ei Gweithiwr Allweddol cyntaf yn wael o ran darparu cymorth ac adborth o ran ei thriniaeth, ac nid oedd ganddynt unrhyw ddiddordeb ynndi. Roedd y newid wedi bod yn symbl, ac roedd yn hapus iawn gyda'i Gweithiwr Allweddol newydd. Disgrifiodd ail gyfranogwr y diffyg gofal a gafwyd ganddi pan ddyrannwyd aelod newydd o staff iddi pan aeth ei Nyrs Glinigol Arbenigol ar gyfnod mamolaeth.

Safonau Ymddygiad

Cytunodd y cleifion i gyd na ddylai fod unrhyw anghysondeb yn safon y gofal a geir gan wahanol bobl.



Îm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Ymddiriedolaeth Bracken

Argaeedd Gweithwyr Allweddol a Nyrs Glinigol Arbenigwyr

Cafodd dau o'r cleifion ddiagnosis o ganser cyn 2012, ac roedd pedwar o'r cleifion wedi cael diagnosis yn ystod neu ar ôl 2012. Roedd tri o'r cleifion wedi cael Gweithiwr Allweddol, a dyrannwyd Nyrs Arbenigol Clinigol i un arall.

Nododd y grŵp fod cael Gweithiwr Allweddol neu Nyrs Glinigol Arbenigol wedi gwella profiad y claf o driniaeth, gan roi sicrwydd iddynt fod ganddynt bwynt cyswllt y gallent ei ddefnyddio ar unrhyw adeg yn ystod eu triniaeth ac ôl-ofal. Roedd rhai cleifion wedi cael profiad gwael o ofal a chefnogaeth gan eu Nyrs Ardal, tra bod dau arall wedi cael lefel uchel o ofal a chymorth.

A gawsoch gyfle i drafod eich anghenion gofal ac a roddwyd cynllun gofal ysgrifenedig ichi? Os felly, beth oedd y buddion?



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

Diffyg ymwybyddiaeth ynghylch cynlluniau gofal ysgrifenedig

Roedd y mwyafrif o'r grŵp wedi cael triniaeth naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol cyn i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser gael ei weithredu yn 2012. Roedd un cyfranogwr wedi cael triniaeth ers 2012 ac wedi cael cynllun gofal ysgrifenedig.

Cytunodd y grŵp fod yna lawer o jargon a therminoleg aneglur. Ni roddwyd gwybodaeth i gyfranogwyr am bwrpas cynllun gofal ysgrifenedig.

Cyfeiriodd un cyfranogwr at Arolwg Profiadau Cleifion Canser Cymru, a dywedodd bod yr arolwg hwn wedi nodi mai dim ond 24% o gleifion Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr oedd wedi cael cynllun gofal ysgrifenedig. Roedd y grŵp yn credu bod y ffigurau hyn yn awgrymu bod ymwybyddiaeth ynghylch cynlluniau gofal ysgrifenedig yn wael.

'NETs Natter'

Argaeledd cynlluniau gofal ysgrifenedig

Roedd un claf y dyrannwyd Nyrs Glinigol Arbenigol niwroendocrin iddi wedi cael cyfle i drafod ei hanghenion, yn ogystal â chael cynllun gofal ysgrifenedig.

Diffyg cyfleoedd i drafod anghenion gofal/clinigol

Nid oedd gweddill y cleifion wedi cael unrhyw apwyntiadau i drafod eu hanghenion clinigol. Nododd y cleifion hyn gyfraddau uchel o ganslo apwyntiadau, a arweiniodd at oedi o 4 i 6 mis cyn trafod eu hanghenion gofal yn y dyfodol. Oherwydd natur cancer niwroendocrin, nododd ei bod yn anodd rhagweld anghenion gofal claf yn y dyfodol nes iddo/iddi gyrraedd pwynt penodol yn y driniaeth.

Grŵp Crefftaw Ysbyty Singleton

Diffyg ymwybyddiaeth ynghylch cynlluniau gofal ysgrifenedig

Roedd un claf wedi gofyn am gynllun gofal ysgrifenedig ond cafodd ei wrthod. Nid oedd y cleifion eraill wedi cael cynlluniau gofal ysgrifenedig. Fodd bynnag, roedd y cleifion i gyd yn cytuno bod eu hanghenion gofal ac anghenion clinigol yn cael eu trafod yn aml mewn apwyntiadau. Roedd apwyntiadau'n amrywio o fod yn cael eu cynnal bob mis i bob yn ail fis, a chytunodd y cleifion i gyd fod ganddynt fynediad agored at eu nyrsys neu glinigwyr dynodedig i drafod unrhyw faterion wrth iddynt godi.



Tim Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Grŵp Cymorth Canser y Fron Gogledd Caerffili

Argaeledd cynlluniau gofal ysgrifenedig

Roedd tri o'r saith o gleifion wedi cael cynllun gofal ysgrifenedig, a chanfuant ei fod yn ffordd wych o drafod eu hanghenion gofal, yn ogystal â chael dealltwriaeth ehangach o'u clefyd.

Ymddiriedolaeth Bracken

Argaeledd cynlluniau gofal ysgrifenedig

Dim ond un claf oedd wedi cael cynllun gofal ysgrifenedig.

Gwahaniaethau mewn gwybodaeth rhwng Cymru a Lloegr

Dyweddodd un claf a oedd â salwch angheul ei fod wedi cael anhawster yn deall y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau a ddarperir drwy'r GIG yng Nghymru a Lloegr. Roedd y grŵp yn credu y dylai mwy o wybodaeth am anghenion gofal gael ei darparu, yn enwedig lle mae gwahaniaethau yn y modd y rhoddir canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol ar waith rhwng y GIG yng Nghymru a'r GIG yn Lloegr, ac y gallai hyn arbed cleifion rhag teimlo'n siomedig o ran deall pam yr oeddent/pam nad oeddent yn gallu cael rhai triniaethau canser.

A gawsoch wybodaeth ddigonol am eich canser a'r effaith y gallai ei gael ar eich iechyd, bywyd cartref, gwaith, cyllid ac yn y blaen, neu a gawsoch eich cyfeirio at y wybodaeth hon? A oedd y wybodaeth honno'n hygyrch ac yn hawdd ei deall?



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

Mynediad da at wybodaeth

Yn gyffredinol, roedd aelodau'r grŵp yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu canser.

Dyweddodd un cyfranogwr, a oedd wedi cael diagnosis o ganser y coluddyn a chanser y prostad, fod gwybodaeth ddigonol ar gael am ganser y coluddyn ond llai o wybodaeth ar gael am ganser y prostad. Dywedodd un cyfranogwr ei bod wedi cael llawer o wybodaeth am ganser ei gŵr a'r driniaeth y byddai'n ei chael, ond na chawsant wybodaeth am faterion ariannol.

Cyfeirio gwael

Nododd un cyfranogwr sy'n ymwneud â chefnogi pobl yn y gymuned fod pobl yn ei chael yn anodd cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt oherwydd diffyg cyfeirio. Nodwyd bod y Ganolfan Macmillan yn Ysbyty Glan Clwyd wedi canfod nifer enfawr o bobl sydd am gael gwybodaeth am wahanol agweddau ar eu triniaeth gan nad ydynt wedi cael eu cyfeirio at y wybodaeth hon yn y lle cyntaf gan y GIG.

Roedd y grŵp yn teimlo bod y rhan fwyaf o bobl yn cael digon o wybodaeth am eu canser a thriniaeth ond dim digon o wybodaeth am faterion ariannol.

'NETs Natter'

Gwybodaeth wael a chyfeirio gwael

Heb gyfle i drafod eu hanghenion gofal a diffyg cynlluniau gofal ysgrifenedig, ychydig iawn o wybodaeth, os o gwbl, oedd y cleifion wedi'i chael i'w helpu i ddeall eu cyflwr. Bu nifer o gyfranogwyr yn disgrifio sut yr oeddent wedi ceisio cael gwell dealltwriaeth o ganser (fel cleifion a gofalwyr) yr oeddent yn ystyried yn frawychus. Roedd y wybodaeth a gasglwyd o'r cyfnod hwn o fyfyrnod yn aml yn anghyson ac yn anodd ei deall. O ran dygymod ag effaith cancer niwroendocrin, nododd cleifion, gofalwyr a nyrsys eu bod yn dysgu trwy brofiad, sef y 'ffordd galed'.

Dyweddodd un o'r nyrsys a oedd yn bresennol yn y drafodaeth nad oedd digon o Weithwyr Allweddol/Nyrsys Clinigol Arbenigol gyda'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol o ganser niwroendocrin i allu rhoi digon o wybodaeth a chefnogaeth i gleifion.

Grŵp Crefftaw Ysbyty Singleton



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Mynediad da at wybodaeth

Roedd consensws cyffredinol fod cleifion yn cael eu cyfeirio at wybodaeth ddigonol am eu canser, neu fod y wybodaeth hon yn cael ei rhoi iddynt. Roedd un claf wedi cael camddiagnosis ers peth amser, ac roedd yn ei chael yn anodd cael rhagor o wybodaeth. Er nad oedd hyn wedi bod yn broblem sylweddol iddi, roedd yn teimlo y gallai fod yn broblem i fenywod eraill oherwydd natur a phrinder ei chanser. Cytunodd y cleifion hefyd fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon yn cael ei darparu drwy elusennau (fel Cymorth Cancer Macmillan) yn hytrach na'r GIG.

Grŵp Cymorth Cancer y Fron Gogledd Caerffili

Cyfeirio da

Cafodd tri o'r cleifion y rhoddwyd cynllun gofal ysgrifenedig iddynt wybodaeth ddigonol am eu canser, ac fe'u cyfeiriwyd at y wybodaeth hon hefyd.

Anghysondebau o ran gwybodaeth a chyfeirio

Roedd y cleifion eraill wedi gorfod dod o hyd i'r wybodaeth hon yn annibynnol drwy gasglu taflenni a llyfrynnau ar ôl eu triniaeth. Roedd diffyg penodol o ran gwybodaeth am effaith canser ar iechyd, bywyd y cartref, gwaith a chyllid y cleifion yn y dyfodol. Cytunodd y cleifion y gall yr iaith a ddefnyddir i egluro eu cyflwr wedi cael diagnosis fod yn rhy dechnegol. Roedd rhai wedi cwrdd â nrys Macmillan yn syth ar ôl i'w oncolegydd drafod y diagnosis â nhw, a chytunodd y cleifion y dylai hyn fod yn rhan orfodol o ofal pawb. Er bod rhai o'r taflenni gwybodaeth yn hawdd i'w deall, roeddent hefyd yn dadlau ei bod hi weithiau'n anodd cael y wybodaeth hon ar eu pennau eu hun, gan nodi bod cefnogaeth a dealltwriaeth yn allweddol.

Ymddiriedolaeth Bracken

Cyfeirio da

Roedd y cleifion wedi cael yr holl lyfrynnau ar eu canser, ac roedd rhai wedi cael eu cyfeirio at wybodaeth arall. Roedd cleifion yn teimlo bod yr Ymddiriedolaeth Bracken yn gwneud y gwaith cyfeirio hwn yn well na'r GIG. Esboniodd un claf fod mwy o wybodaeth ar gael yn awr nag yn 2004 pan oedd wedi cael diagnosis. Dywedodd cyfranogwr arall y dylid rhoi rhagor o wybodaeth i gleifion am atal canser ar ôl gwellhad (er enghraift, drwy ddilyn y deiet cywir) er ei fod yn gwerthfawrogi bod rhai mathau o ganser yn codi eto heb achos. Awgrymodd un claf canser y fron y dylai rhagor o wybodaeth am ddeiet a'r risg o golli pwysau



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

gael ei rhoi i bobl sy'n cael cemotherapi.

A gafodd eich teulu y wybodaeth angenrheidiol i'w helpu i ofalu amdanoch gartref?



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

Diffyg gwybodaeth i deuluoedd

Yn gyffredinol, roedd y grŵp yn teimlo nad oes llawer o wybodaeth ar gael am yr hyn y dylai'r gofalwr ei wneud unwaith i'r claf fynd adref ar ôl i'r driniaeth ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am holl gamau canser, o driniaeth hyd at ofal lliniarol.

Dywedodd un cyfranogwr fod diffyg gofal seicolegol i gleifion a gofalwyr.

Diffyg cefnogaeth i'r rhai heb deuluoedd

Nododd un cyfranogwr fod angen osgoi tybio bod gan bawb deulu o'u hamgylch i'w cefnogi, a gofynnodd o ble y gall bobl gael cymorth os nad oes ganddynt deulu.

'NETs Natter'

Diffyg gwybodaeth i deuluoedd

Dywedodd nifer o gleifion fod rhai aelodau o'u teuluoedd yn mynd i apwyntiadau gyda nhw, ond ni roddwyd unrhyw wybodaeth benodol i'w helpu i ddeall anghenion gofal parhaus. Cytunodd y cyfranogwyr y dylid rhoi rhagor o wybodaeth i aelodau o'r teulu, yn enwedig oherwydd nid cleifion yw'r unig bobl sy'n gorfod 'byw gyda'r canser'.

Grŵp Crefftaw Ysbyty Singleton

Diffyg gwybodaeth i deuluoedd

Er bod teuluoedd/perthnasau agosaf y cleifion yn bresennol yn eu holl apwyntiadau, ni roddwyd cymorth unigol neu wybodaeth am sut i helpu i ofalu am gleifion yn y cartref i'r un ohonynt. Rhannodd un o Arbenigwyr Nyrsio Clinigol claf a oedd yn bresennol ei manylion cyswllt â'i theulu a phwysleisiodd y gallent gysylltu â hi ar unrhyw adeg os byddai angen iddynt wneud hynny.

Grŵp Cymorth Canser y Fron Gogledd Caerffili

Diffyg gwybodaeth i deuluoedd

Dywedodd y cleifion nad oedd yr un o'u teuluoedd wedi cael y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i helpu i ofalu amdanynt yn y cartref.

Ymddiriedolaeth Bracken



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Diffyg gwybodaeth i deuluoedd

Dyweddodd y cleifion y dylai gofalwyr gael cynllun gofal hefyd, yn ogystal â'r claf, gan nodi bod diffyg cefnogaeth i deuluoedd drwyddi draw (o ran gofal iechyd) i'w helpu i ddygymod â salwch aelod o'r teulu. Roedd un cyfranogwr wedi cael cyngor ar gymorth ariannol yn ystod triniaeth ei bartner, ond dywedodd nad oedd angen y cyngor hwn arnynt.

Os oes unrhyw sgil-effeithiau hirdymor yn deillio o'ch triniaeth canser, a ydych wedi cael y wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol ar eu cyfer?



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

Diffyg gwybodaeth a chefnogaeth o ran sgil-effeithiau hir-dymor

Roedd un cyfranogwr yn teimlo'n eithaf cryf nad yw pobl yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am sgil-effeithiau posibl canser a'i driniaeth.

Nodwyd bod llawer o bobl yn cael trafferthion yn dilyn triniaeth fel cemotherapi ac ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Roedd y grŵp yn teimlo nad oedd y camau dilynol ar ôl radiotherapi yn ddigon da; mae un cyfranogwr yn dal yn dioddef o sgil-effeithiau difrifol ar ôl triniaeth radiotherapi ac ni chafodd unrhyw wybodaeth am hyn.

Sgil-effeithiau diffyg gwybodaeth

Mynegodd y grŵp bryderon efallai na fydd ymarferwyr iechyd yn dysgu am sgil-effeithiau posibl canser a'i driniaeth os nad yw cynnydd pobl yn cael ei ddilyn ar ôl eu triniaeth. Roedd y grŵp hefyd yn aneglur o ran sut y caiff y gwensi a ddysgir oddi wrth eu profiadau eu cadw a'u defnyddio i helpu i drin cleifion eraill a gofalu amdanynt.

'NETs Natter'

Diffyg gwybodaeth a chefnogaeth o ran sgil-effeithiau hir-dymor

Cymharwyd byw gyda chanser niwroendocrin gyda dioddef o ddiabetes – nodwyd pwysigrwydd cydbwyso'r agwedd glinigol ar y cancer (fel triniaeth) gyda rheoli'r clefyd (byw gyda'r cancer, cymryd meddyginaeth a sgil-effeithiau dyddiol). Dywedodd y cleifion eu bod yn gwbl amharod i ddygymod ag effaith seicolegol y cancer, gan nodi bod llawer o'r symptomau yn peri digalondid i gleifion ac yn eu hatal rhag gadael eu cartrefi neu wneud trefniadau teithio.

Grŵp Crefftau Ysbyty Singleton

Gwybodaeth am sgil-effeithiau hir-dymor

Eglurodd tri o'r pedwar claf eu bod wedi cael y wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol o ran effeithiau hir-dymor eu triniaeth cancer.

Dyweddodd y claf arall nad oedd gan ei nyrs ardal y wybodaeth angenrheidiol i wybod sut i'w thrin yn y gymuned a rhoi'r un lefel o gefnogaeth iddi a ddarperir yn yr ysbyty. Dywedodd bod hyfforddiant i gefnogi ei thriniaeth HPV wedi cael ei gynnig i'w nyrs ardal, ond ei bod hi'n aml yn teimlo ei bod yn cefnogi a chydgysylltu ei gofal ei hun.



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Roedd un claf yn teimlo ei bod yn gwbl amharod ar gyfer effeithiau seicolegol ac ymarferol ei thriniaeth canser, ac yn teimlo y gallai fod wedi cael mwy o gefnogaeth o ran gorfod rhoi'r gorau i'w gyrrfa a goblygiadau ariannol hynny.

Grŵp Cymorth Canser y Fron Gogledd Caerffili

Gwybodaeth ddigonol am sgil-effeithiau hir-dymor

Yn gyffredinol, cytunodd y cleifion eu bod wedi cael y wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol o ran y sgil-effeithiau hir-dymor, ac roeddent yn teimlo bod y pethau hyn yn cael eu darparu mewn modd sy'n fwy na digonol gan Grŵp Cymorth Canser Macmillan.

Ymddiriedolaeth Bracken

Diffyg gwybodaeth am sgil-effeithiau hir-dymor

Cytunodd y cleifion nad oeddynt wedi cael y wybodaeth angenrheidiol am effeithiau hir-dymor canser a'i driniaeth.

Gwybodaeth am effaith ariannol canser

Roedd llawer yn credu y dylai cleifion allu hawlio costau teithio yn ôl ac ymlaen i ysbytai y tu allan i'w hardaloedd bwrdd iechyd lleol. Hefyd, nodwyd bod angen mwy o gefnogaeth i gleifion i wella eu dealltwriaeth o sut y gallant ddod o hyd i gyllid ar gyfer cyfarpar prosthetig a wigiau.



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

02. Pa gamau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod canser yn cael ei ganfod yn gyflym (er enghraifft, cynyddu'r defnydd o wasanaethau sgrinio canser, cael gwell mynediad uniongyrchol at ddiagnosis ar gyfer meddygon teulu a gwella'r broses o gyfeiriadau gan feddygon teulu o ran amserau aros)?

Pa gamau sydd angen eu cymryd i sicrhau y gellir dod o hyd i ganser yn gyflym?



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

Diffyg arbenigwyr

Nododd un cyfranogwr brinder arbenigwyr mewn rhai mathau o ganser ledled Gogledd Cymru, er enghrafft ar gyfer canser y croen, y mae apwyntiadau clinig gyda nhw wedi'u gohirio fwy nag unwaith, weithiau ar fyr rybudd. Roedd y cyfranogwr hwn hefyd yn teimlo bod anghysondeb rhwng gwasanaethau yng ngogledd a de Cymru, ac nad yw prinder yn y gogledd yn cael sylw mewn modd amserol.

Oedi a chamddiagnosis

Nododd un cyfranogwr, unwaith y bydd rhywun yn cael symptomau canser, maent yn cael rhyw driniaeth neu feddyginaeth ac mae'r meddyg teulu yn dweud wrthynt i ddychwelyd ymhen mis os nad yw'r symptomau'n well. Roedd yn credu y gallai oedi fel hyn gael sgil-effeithiau ar atgyfeiriadau ymhellach, gan gynnwys aros am sganiau CT neu sgrinio perthnasol. Roedd rhai cyfranogwyr wedi aros mor hir â 3 mis rhwng cyflwyno eu symptomau a chael mynediad at sgrinio canser.

Barnwyd fod y mynediad sydd gan feddygon teulu at wasanaethau sgrinio yn annigonol.

Materion yn ymwneud â chanserau penodol o ran rhyw

Dywedodd un cyfranogwr a oedd wedi cael diagnosis o ganser y prostad ac yna canser y coluddyn nad oes llawer yn cael ei wneud i hybu iechyd dynion a'r gwasanaethau sgrinio sydd ar gael i ddynion ar gyfer pethau fel canser y prostad.

'NETs Natter'

Oedi a chamddiagnosis

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gryf y dylai meddygon teulu fod yn fwy ymwybodol o symptomau canser niwroendocrin a bod yn fwy parod i gyfeirio cleifion i gael sganiau. Dywedodd un cyfranogwr bod saith mlynedd wedi mynd heibio ar ôl ei hymweliad cyntaf â'i meddygfa leol cyn cael diagnosis terfynol. Dywedodd cyfranogwyr oherwydd nad yw canser niwroendocrin yn rhan o faes oncoleg, nid yw clinigwyr yn ymwybodol bod angen iddynt edrych amdano. Dadleuwyd y byddai defnydd rheolaidd o brofi wrin yn ddull mwy cost-effeithiol o ganfod canser niwroendocrin.



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Grŵp Crefftau Ysbyty Singleton

Diagnosis a chanfod cyflym

Roedd y cleifion i gyd yn teimlo bod canfod cyflwr yn gyflym yn allweddol ar gyfer diagnosis.

Oedi a chamddiagnosis

Roedd dau o'r cleifion wedi cael camddiagnosis am gyfnod sylweddol o amser (hyd at flwyddyn) a oedd wedi arwain at eu canserau'n cael eu categorieddio'n ganserau T41. Awgrymodd un o'r cleifion y dylai unigolion gael y cyfle i ethol a thalu am sgan, a chael eu had-dalu os oes unrhyw beth yn cael ei ganfod.

Dyweddodd claf arall fod ymdrin ag atgyfeiriadau mewn modd amserol yn bwysig iawn. Nododd bod ei meddyg teulu wedi ei chyfeirio at apwyntiad brys yng nghlinig y fron, ond ei bod wedi dewis cael sgan preifat i dawelu ei meddwl. Cafodd y sgan hwn o fewn deuddydd, ond nid oedd y llythyr am ei hapwyntiad brys wedi cyrraedd tan 6 wythnos yn ddiweddarach. Teimlai y gellid gwneud mwy i annog atgyfeiriadau amserol gan feddygon teulu i gael profion diagnostig.

Teimlai un claf y dylai mwy o feddygon teulu gael eu dyrannu. Eglurodd bod y rhan fwyaf o'i meddygon teulu yn staff locwm ac nad oedd wedi gweld yr un meddyg ddwywaith ar unrhyw adeg cyn diagnosis. Teimlai y gallai hyn fod wedi cyfrannu at yr amser a gymerwyd i wneud diagnosis.

Materion yn ymwneud â chanserau penodol o ran rhyw

Fel unigolion sydd wedi cael diagnosis o ganser penodol o ran rhyw, eglurodd y cleifion fod clinigwyr gwrywaidd dim ond yn gwneud apwyntiadau gyda nhw pan fo nyrs benywaidd yn gallu bod yn bresennol yn yr ystafell hefyd. Awgrymwyd y gallai hyn gyfrannu at yr oedi cyn diagnosis/triniaeth. Dywedodd y cleifion i gyd y byddent wedi bod yn fodlon cwrdd â'u clinigwyr heb fod nyrs benywaidd yn bresennol.

Grŵp Cymorth Canser y Fron Gogledd Caerffili

Oedi a chamddiagnosis

¹Mae gan y rhan fwyaf o ganserau system i rifo'r cymalau o 1 i 4. Lle mae'r canser wedi llledaenu o ble y dechreuodd i un o organau eraill y corff, nodir fod y canser yn ganser categori pedwar. Gelwir hyn hefyd yn ganser eilaidd neu ganser metastatig.



Tim Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Cytunodd y cleifion i gyd y dylai'r terfyn oedran isaf ar gyfer sgrinio mamogram gael ei ostwng. Roedd un claf wedi cael diagnosis yn 40 oed, sef degawd cyn ei phrawf cyntaf yn arferol. Cafodd diagnosis o ffurf ymosodol o ganser y fron T3 a fyddai, heb ei ganfod, wedi ei lladd o fewn 18 mis.²

Codi ymwybyddiaeth

Cytunodd y cleifion y dylid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth ynghylch y ffaith fod canser yn salwch sy'n bygwth bywyd, yn hytrach na salwch sy'n deillio o ysmigu neu ffordd o fyw afiach, er enghraift. Mae rhai mathau o ganser yn datblygu heb symptomau ac yn aml heb reswm. O ganlyniad i hyn, roeddent yn teimlo y dylai pobl ifanc ddysgu sut i chwilio am lympiau ar y corff.

Ymddiriedolaeth Bracken

Codi ymwybyddiaeth

Cytunodd y cleifion y dylid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth ynghylch canser yn gynharach, ac y dylid rhoi sylw penodol i amseroedd atgyfeirio gan feddygon teulu a faint o amser y mae'n gymryd i ganfod canser.

A wnaethoch/a ydych yn mynychu gwasanaethau sgrinio canser cyson?

Nododd cyfranogwyr yn yr holl grwpiau eu bod wedi cymryd rhan mewn profion sgrinio a'u bod yn parhau i wneud hynny, ond dylai gwasanaethau sgrinio fod ar gael yn gynharach.

Ar ben hynny, nododd Grŵp Canser y Fron Gogledd Caerffili y dylid gwneud rhagor o ymdrech i godi ymwybyddiaeth i sicrhau bod cleifion sy'n cael triniaeth yn parhau i gael eu sgrinio er mwyn sicrhau bod canser yn cael ei atal rhag datblygu mewn rhannau eraill o'r corff.

Dyweddodd y grŵp NETs Natter fod rhai cleifion wedi aros hyd at 8 mis i sgrinio'r ysgyfaint a'r galon.

Nododd cyfranogwyr o Ymddiriedolaeth Bracken yr angen i dynnu sylw at y ffaith y gall dynion sy'n dioddef o ganser penodol o ran rhyw ofyn am brawf antigen penodol i'r prostad gan y meddyg teulu unrhyw bryd, beth bynnag eu hoedran.

²Yn aml, nodir fod y canser yn un categori tri pan fo'r canser yn fwy. Bydd y canser, o bosibl, wedi dechrau ymledu i feinweoedd cyfagos ac mae celloedd canser yn y nodau lymff yn y rhan hon o'r corff.



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Beth y gellir ei wneud i annog rhagor o bobl i ddefnyddio gwasanaethau sgrinio canser?



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales
Tudalen y pecyn 129

Îm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

Codi ymwybyddiaeth

Dyweddodd un cyfranogwr fod angen i bobl gymryd mwy o gyfrifoldeb personol dros eu hiechyd.

Roedd y grŵp yn teimlo bod rhagor yn cael ei wneud yn awr i wneud pobl yn ymwybodol o wasanaethau sgrinio canser ond nad yw hyn yn ddigon o hyd. Roeddent yn teimlo bod angen i ni siarad â phlant mewn ysgolion am ganser ac mae angen i ni siarad â nhw mewn ffordd sy'n naturiol iddynt. Mae angen iddynt gael eu haddysgu am y wybodaeth sydd ar gael a ble y gallant ddod o hyd iddi. Roedd y grŵp yn teimlo bod angen dangos rhywbeth i blant a fydd yn eu gorfodi i ymateb.

'NETs Natter'

Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ganser niwroendocrin drwyddi draw

Nid oes unrhyw wasanaethau sgrinio ar gyfer canser niwroendocrin, a dywedodd y cyfranogwyr fod angen cael gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r cyflwr a'r symptomau ar bob lefel o ofal iechyd.

Grŵp Crefftaw Ysbyty Singleton

Codi ymwybyddiaeth

Pwysleisiodd rhai o'r cleifion bwysigrwydd chwalu'r rhwystr o 'embaras a chysur' i fanteisio ar wasanaethau sgrinio canser. Dywedodd un claf y dylai unrhyw fenyw sy'n cael rhyw gael prawf ceg y groth, er mwyn imiwneiddio yn erbyn canser HPV a firysau. Nodwyd fod pobl ifanc y tu allan i'r DU yn cael eu haddysgu i chwilio am lympiau yn y fron a'r ceilliau; dadleuodd y cleifion i gyd y dylai hyn ddigwydd yn ein hysgolion uwchradd ni, hefyd. Nodwyd y dylai'r broses hon o ddysgu fod yn un gweledol, gan ddangos effeithiau canser. Roeddent yn credu y dylai iechyd personol fod ar frig yr agenda, ynghyd â maeth.

Profion genetig

Cododd un claf y posibilrwydd o gyflwyno mwy o lwybrau at 'brofion genetig' i ychwanegu at y llwybrau presennol ar gyfer menywod o deuluoedd sydd â hanes hir o ganser y fron.

Grŵp Cymorth Canser y Fron Gogledd Caerffili



Îm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Codi ymwybyddiaeth

I annog mwy o bobl i fanteisio ar wasanaethau sgrinio ar gyfer canser, cytunodd y cleifion y dylid hysbysebu ar y teledu yn ystod oriau brig ac y dylid targedu'r hysbysebion hyn at y cynulleidfaoedd perthnasol.

Ymddiriedolaeth Bracken

Codi ymwybyddiaeth

I gael mwy o bobl i fanteisio ar wasanaethau sgrinio canser, dylid eu hannog ar ffurf ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus, yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau ar gael i unigolion sy'n dod o deuluoedd sydd wedi dioddef llawer o achosion o ganser.

Pa mor rhagweithiol oedd eich meddyg teulu wrth asesu ac atgyfeirio eich symptomau, a faint o wybodaeth oedd ganddo amdanynt?



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

Oedi a chamddiagnosis

Nododd un cyfranogwr ei bod wedi cymryd 10 mis iddo gael diagnosis o ganser y prostad gan fod ei symptomau wedi cael eu trin fel haint i ddechrau.

Cysondeb o ran gwasanaethau meddyg teulu

Roedd y grŵp yn teimlo bod meddygon teulu weithiau yn rhagweithiol. Fodd bynnag, nid yw pawb bob amser yn gweld yr un meddyg teulu, sy'n golygu bod y meddyg teulu yn dibynnu ar wybodaeth wedi'i ffeilio yn hytrach na defnyddio'i wybodaeth bersonol am glaf penodol. Roedd aelodau o'r grŵp yn pryderu y gallai gweld mwy nag un meddyg teulu arwain at gofnodi neu drosglwyddo'r wybodaeth anghywir.

Roedd profiadau cleifion yn amrywio'n sylweddol, ond, yn gyffredinol, roedd y grŵp yn teimlo bod llawer o bethau i'w gwella mewn ymarfer meddygol.

'NETs Natter'

Diffyg ymwybyddiaeth ynghylch canser niwroendocrin/tiwmorau niwroendocrin ar lefel meddyg teulu

Roedd y cleifion i gyd yn teimlo bod diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth angenrheidiol ymhlið meddygon teulu o ran canser niwroendocrin i'w galluogi i asesu eu symptomau fel rhai sy'n gyfystyr â'r clefyd. Roedd hyn, yn ei dro, wedi effeithio ar gyfeiriadau. Cafodd y rhan fwyaf o gleifion gamddiagnosis pan oeddent wedi cyflwyno'u symptomau, ac roeddent wedi treulio rhwng chwe mis a saith mlynedd yn cael eu trin am gyflyrau fel Syndrom Coluddyn Llidus.

Grŵp Crefftau Ysbyty Singleton

Oedi cyn cael eu cyfeirio i gael sgan

Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn teimlo bod eu meddygon teulu yn rhagweithiol a gwybodus wrth asesu a chyfeirio eu symptomau, ond roedd oedi cyn eu cyfeirio i gael sgan wedi golygu bod canser dau o'r cleifion wedi lledaenu. Roedd un cyfranogwr yn teimlo bod ei meddygfa yn wael iawn yn adnabod ei symptomau, er bod lefel y gofal yr oedd wedi'i gael ers hynny yn ardderchog.

Grŵp Cymorth Canser y Fron Gogledd Caerffili

Meddygon teulu rhagweithiol a gwybodus



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn teimlo bod eu meddygon teulu yn rhagweithiol a gwybodus wrth asesu a chyfeirio eu symptomau; yr amser rhwng sgrinio a diagnosis ar gyfer un claf oedd tair wythnos. Dywedodd un claf fod y broses hon wedi digwydd ‘ychydig yn rhy gyflym’ iddi, ac nad oedd wedi cael llawer o amser i ddod i delerau â'r hyn oedd yn digwydd iddi. Ar y llaw arall, dywedodd bod y gefnogaeth a gafodd gan y nyrssys yn rhagorol ac wedi ei helpu i deimlo'n gyfforddus.

Ymddiriedolaeth Bracken

Meddygon teulu rhagweithiol a gwybodus

Cytunodd y cleifion i gyd fod eu meddygon teulu yn rhagweithiol a gwybodus wrth asesu a chyfeirio eu symptomau.

03. Pa welliannau y gellir eu gwneud fel bod cleifion yn cael triniaeth a gofal cyflym ac effeithiol (er enghraifft, mynediad cyflym at driniaeth briodol, gwasanaethau sydd wedi'u cydgysylltu'n dda a mynediad at brofion a gwaith ymchwil clinigol)?

A oes gennych unrhyw brofiad o gael gofal cancer ar draws gwahanol ysbytai neu leoliadau sylfaenol, cymunedol, eilaidd neu ofal cymdeithasol? Os felly, beth yw eich barn ar y ffordd y cydlynwyd eich gofal?



Îm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

Cydgysylltu trawsffiniol gwael

Roedd rhai cyfranogwyr yn y grŵp wedi cael profiad o driniaeth drawsffiniol. Roeddent yn teimlo bod diffyg cydgysylltu rhwng gwahanol ysbytai. Soniodd y cyfranogwyr hyn am yr angen i ddweud wrth nyrsys neu oncolegwyd mewn un ysbyty beth oedd wedi digwydd mewn ysbyty arall oherwydd nad oedd gwaith papur bob amser wedi cael ei rannu rhngddynt. Roedd teimlad cryf bod cyfathrebu rhwng ysbytai yn ddiffygiol.

Cydgysylltu da ar draws lleoliadau gofal

Roedd un cyfranogwr yn teimlo ei fod wedi cael profiad da o gyfathrebu rhwng ei feddyg teulu a meddyg ymgynghorol mewn ysbyty. Anfonodd ei feddyg ymgynghorol adolygiad o'i gyflwr a'i driniaeth at ei feddyg teulu ac roedd hefyd wedi cael copi personol o'r wybodaeth hon.

'NETs Natter'

Diffyg cydgysylltu

Dyweddodd y mwyafrif llethol o gyfranogwyr y dylai gofal canser niwroendocrin gael ei gydgysylltu'n well, oherwydd eu bod yn teimlo eu bod yn gofyn am driniaeth drwy'r amser yn hytrach na chael y gofal hwn. Roeddent yn tynnu sylw at yr angen i gynyddu momentwm triniaeth o'r prawf cyntaf ymlaen, gan ddweud bod oedi rhwng profion a diffyg ymdeimlad o frys gan glinigwyr.

Grŵp Crefftaw Ysbyty Singleton

Cydgysylltu da

Cytunodd y cleifion i gyd bod eu gofal wedi cael ei gydgysylltu'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, pwysleisiwyd pwysigrwydd rhannu gwybodaeth a'r angen i wneud popeth yn hygyrch yn electronig i'r holl staff meddygol. Roeddent yn dadlau y dylai clinigwyr o bob adran a lleoliad gofal a gymeradwyir allu cael mynediad at gofnodion meddygol unigolyn.

Diffyg cydgysylltu

Ar ôl cael gofal mewn dau ysbyty gwahanol, dywedodd un claf nad oedd ei gwybodaeth wedi cael ei rhannu'n ddigonol rhngddynt.

Grŵp Cymorth Canser y Fron Gogledd Caerffili



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Angen cyfathrebu'n well ar draws lleoliadau gofal

Roedd gan y cleifion i gyd brofiad o gael gofal canser ledled rhanbarth de Cymru. Roeddent yn teimlo bod angen blaenoriaethu cyfathrebu er mwyn cydgysylltu gofal yn well. Nodwyd hefyd fod angen i ysbytai a thimau ôl-ofal gyfathrebu'n well gyda'i gilydd. Siaradodd rhai cyfranogwyr am brofiadau lle'r oedd Nyrsys Ardal yn dangos 'diffyg gofal a pharch' wrth ymweld â chleifion, gan fethu â darllen y nodiadau ymlaen llaw ac, ar adegau, gofyn i'r cleifion beth yr oeddent yno i'w wneud.

Ymddiriedolaeth Bracken

Angen cyfathrebu'n well ar draws lleoliadau gofal

Roedd gan y cleifion i gyd brofiad o gael gofal canser ar draws gwahanol ysbytai. Cytunodd y cleifion fod angen i adrannau ac ysbytai gyfathrebu'n well, a phwysleisiwyd yr angen i anfon copïau o lythyrau at gleifion fel eu bod yn parhau i fod yn rhan o'r drafodaeth am eu gofal.

A gysylltwyd â chi i gymryd rhan mewn prawf clinigol? Os felly, sut brofiad oedd hynny?



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

Cysylltwyd â llawer o'r cyfranogwyr yn y grŵp mewn perthynas â chymryd rhan mewn prawf clinigol.

Dywedodd un cyfranogwr bod ei phrofiad o brofion clinigol wedi bod yn dda iawn a'i bod yn credu eu bod wedi helpu i achub ei bywyd. Cafodd ei chwaer ddiagnosis o'r un canser wedi hynny, a defnyddiwyd yr un cyffuriau a oedd yn rhan o'r prawf clinigol yr oedd yn rhan ohono yn nhriniaeth ei chwaer.

'NETs Natter'

Roedd un cyfranogwr wedi cymryd rhan mewn tri phrawf clinigol: dau yn y DU ac un yn yr arfaeth yn yr Almaen. Roedd hi wedi mwynhau cymryd rhan ynddynt ac roedd yn croesawu'r cynnig i gymryd rhan.

Grŵp Crefftaw Ysbyty Singleton

Ni chysylltwyd ag unrhyw un o'r cyfranogwyr i gymryd rhan mewn profion clinigol.

Grŵp Cymorth Canser y Fron Gogledd Caerffili

Bu un o'r cleifion yn cymryd rhan mewn prawf clinigol pum mlynedd o hyd a oedd yn cymharu effeithiau Anastrozole a Tamoxifen. Daeth y prawf clinigol hwn i ben y llynedd. Roedd hi wedi mwynhau'r profiad, ac roedd yn teimlo bod ganddi bwynt o gyswilt ardderchog drwy gydol ei thriniaeth.

Ymddiriedolaeth Bracken

Cysylltwyd ag un o'r cleifion i ofyn iddo gymryd rhan mewn prawf clinigol, ond pwysleisiodd ei glinigwr ei hawydd i reoli ei driniaeth yn bersonol. Nododd un cyfranogwr fod profion clinigol mewn gwirionedd dim ond yn cael eu cynnig i bobl yr oedd eu triniaethau blaenorol wedi bod yn aflwyddiannus.

04. Pa welliannau y gellir eu gwneud i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o leihau'r perygl o ganser drwy wneud dewisiadau o ran byw'n iach, a'u bod yn cael eu cefnogi yn hynny o beth?



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

A ydych yn credu bod yr ymgyrchoedd cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth ynghylch y ffactorau risg ar gyfer canser (er enghraifft, ysmygu, alcohol, gordewdra ac yn y blaen) yn ddigonol? Os na, pam felly, a sut y gellir eu gwell? A wnaethoch ddefnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau iechyd cyhoeddus sydd ar gael i hybu ffyrdd iach o fyw (fel gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu neu alcohol, neu wasanaethau i fynd i'r afael â gordewdra)? Os felly, sut brofiad oedd hynny?



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru

Ar y cyfan, roedd y grŵp yn teimlo mai'r gair allweddol i'w ystyried wrth drafod ymwybyddiaeth y cyhoedd yng hylch ffactorau risg canser yw cymhelliant.

Roeddent yn teimlo bod pobl yn gwrthod cymryd cyfrifoldeb am eu ffordd o fyw. Roeddent yn dadlau y gallai gwneud pobl yn fwy ymwybodol o effeithiau eu penderfyniadau o ran eu ffordd o fyw eu cymell i newid eu penderfyniadau. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth y gall dod o hyd i ffyrdd i gymhell pobl fod yn anodd.

Roedd y grŵp yn teimlo bod addysgu pobl am risgiau canser o oedran ifanc yn bwysig iawn, ond roedd teimlad ym ysg y grŵp bod gormod o ymgyrchoedd cyhoeddus am ffactorau risg o ran canser. Bu'r grŵp yn cwestiynu a yw pobl yn cymryd unrhyw sylw ohonynt, gan ofyn a oedd negeseuon yn cael eu glastwreiddio yn sgil y nifer fawr o ymgyrchoedd.

Nododd un cyfranogwr bod newid deddfwriaeth yn cael dylanwad o bryd i'w gilydd, er enghraifft y ddeddfwriaeth i wahardd ysmigu mewn tafarnau. Nodwyd nad yw gweld ymgyrchoedd byth a beunydd yn cael yr un effaith. Gofynnodd y grŵp a oedd unrhyw ymchwil wedi ei wneud i weld a yw'r ymgyrchoedd hyn yn gweithio mewn gwirionedd.

Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo nad oedd mentrau presennol yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau; er enghraifft, cafodd sesiynau Dechrau'n Deg – Rhaglen Llywodraeth Cymru sydd wedi'i thargedu at y Blynnyddoedd Cynnar ar gyfer teuluoedd sydd â phlant o dan 4 oed mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru – eu nodi fel cyfle i hyrwyddo penderfyniadau yng hylch ffordd o fyw ac i roi cyngor am ganser.

'NETs Natter'

Dadluodd y grŵp am fwy o ymwybyddiaeth ymhliith Meddygon Teulu o symptomau canser niwroendocrin. Eglurwyd nad yw canser niwroendocrin o reidrwydd yn amlygu ei hun o ganlyniad i ddewisiadau ffordd o fyw gwael, ond gall ddeillio o eneteg neu anghydwysedd hormonaidd. Teimlwyd mai cael nyrsys niwroendocrin arbenigol fyddai'r dewis gorau i gleifion ac y dylai addysgu am y math hwn o ganser fod yn rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus meddygon teulu.

Grŵp Crefftaw Ysbyty Singleton

Cytunodd y cleifion yn gryf fod ymgyrchoedd canser yn annigonol ar gyfer pobl ifanc, ac y dylai profion canser ddechrau'n gynharach.



Tîm Cyfathrebu'r Cynulliad: Allgymorth

Amlinelloedd un claf yr angen i barhau i addysgu menywod am ganser y fron:
‘Nid Iwmp yn unig yw canser y fron... mae yna ffyrdd eraill o'i ganfod drwy llynnybau meinwe... Mae angen ichi wybod am eich corff ei hun, a dylai menywod ifanc gael eu haddysgu i chwilio i ddeall pan fydd rhywbeth o'i le’.

Roedd un claf wedi defnyddio'r cynllun atgyfeirio ymarfer corff, ond nid oedd wedi cael ei ddatblygu digon iddi gymryd mantais ohono. Dywedodd ei bod wedi cael y wybodaeth hon yn y Sioe Adfer o Ganser ac nid drwy'r GIG.

Grŵp Cymorth Canser y Fron Gogledd Caerffili

Roedd y cleifion yn teimlo y dylai mwy o hysbysebion wedi'u targedu o ran rhyw gael eu dangos ar y teledu. Dywedodd rhai cleifion fod gormod o ymgyrchoedd iechyd yn achosi dryswch, yn enwedig o ran beth sy'n iach i'w fwyta. Cafodd y grŵp drafodaeth am y diffyg gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am effaith ychwanegion bwyd a diod. Fel y soniwyd yn flaenorol, dywedodd y grŵp hefyd na ddylai ymgyrchoedd canser ganolbwytio ar ddeiet iach yn unig, gan fod llawer o ganserau yn datblygu heb achos neu symptomau.

Cafodd dau o'r cleifion fynediad at wasanaethau iechyd cyhoeddus, ond cawsant eu cyfeirio atynt drwy Macmillan yn hytrach na'r GIG. Mae un yn mynd i ddosbarth ffitrwydd sy'n cael ei gyflwyno ar y cyd drwy Macmillan a'r cynllun Cymunedau yn Gyntaf lleol. Manteisiodd y llall ar atgyfeiriad triniaeth adweitheg drwy Felindre a oedd yn help iddi adennill ei ffocws ar ei lles cyffredinol.

Ymddiriedolaeth Bracken

Cytunodd y cleifion i gyd fod ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyhoeddus am ffactorau risg canser yn annigonol. Nododd y grŵp fod llawer o wybodaeth yn cystadlu, yn enwedig o ran deiet. Teimlai un o'r cyfranogwyr fod negeseuon iechyd cyhoeddus yn aml yn ‘siarad lawr â'r cyhoedd, sy'n nawddoglyd... ni ellir disgwyl i bobl gydymffurfio â disgwyliadau uchel o ran ffordd iach o fyw’.

Roedd cyfranogwr a chlaf arall yn teimlo y dylai gwybodaeth gael ei rhannu gyda phlant o bob oed, yn hytrach na chaniatáu iddynt gael eu gwarchod rhag effeithiau canser: ‘mae angen cael sgwrs agored am ganser, a allai yn y dyfodol... eu hannog i fanteisio ar sgrinio’.



Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ymchwiliad i'r cynnydd hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru

Nodyn ar drafodaeth y grŵp ffocws ar 14 Mai 2014

1. Estynnodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wahoddiad i bobl sydd â phrofiadau o wasanaethau canser yng Nghymru i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws a drefnwyd mewn partneriaeth â Chymorth Canser Macmillan a Chynghrair Canser Cymru. Bu Aelodau yn cynnal grwpiau ffocws unigol, gan ofyn am farn y cyfranogwyr ar dair prif thema, yn ogystal ag unrhyw bwyntiau eraill yr oeddent yn dymuno eu codi, ac yna fe rannwyd y trafodaethau grŵp mewn sesiwn lawn. Mae'r nodyn hwn yn ymwneud yn bennaf â'r trafodaethau yn y sesiwn lawn, ond mae hefyd yn cynnwys rhai o'r materion a godwyd yn y grwpiau unigol.
2. Roedd amrywiaeth o ran profiadau cleifion mewn gwahanol rannau o Gymru a gyda gwahanol fathau o ganser. Roedd cleifion o'r farn bod y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yn swnio'n dda, ond nad oedd yn adlewyrchu eu profiadau.
3. Roedd cleifion o'r farn na ddylent orfod ymladd am y triniaethau neu'r cyffuriau sydd eu hangen arnynt, ond y dylid, yn hytrach, gydnabod fod pob claf yn unigolyn a'u trin yn y ffordd orau ar gyfer eu canser a'u hamgylchiadau penodol.

Thema 1: Beth sydd angen digwydd i sicrhau y gellir dod o hyd i ganser yn gyflym?

Diagnosteg

4. Roedd cleifion wedi cael profiadau cymysg, a mynegwyd pryderon am allu meddygon teulu i ddod o hyd i wahanol fathau o ganser. Mewn nifer o achosion, cafwyd sawl ymwelliad â'r meddyg teulu cyn cael

atgyfeiriad priodol. Mynegodd rai cleifion rwystredigaeth a siom ei bod yn frwydr cael eu meddyg teulu i gymryd eu symptomau o ddifrif. I fynd i'r afael â hynny, roeddent o'r farn bod angen i feddygon teulu gael mynediad at yr hyfforddiant cywir – a hynny o'r cychwyn ac yn barhaus – ar gyfer y symptomau a hefyd ar gyfer sut i gyfathrebu â phobl mewn ffordd addas heb roi sicrwydd ffug iddynt.

5. Soniodd rai cleifion am rôl y gwasanaethau gofal sylfaenol eraill gyda diagnosis, er enghraiff, deintyddion a nyrsys.
6. Roedd cleifion o'r farn bod yr amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig yn rhy hir, yn enwedig ar gyfer profion arbenigol neu ganser llai cyffredin. Roedd rhwystredigaeth y gallai amser aros hir gyfrannu at y straen ar yr unigolyn, a gallai'r canser hefyd dyfu neu ledu, neu fe allai effeithio ar y cyfnod tâl salwch sydd ar gael i'r unigolyn. Nodwyd hefyd mewn rhai grwpiau y gallai diagnosis hwyrach arwain at gostau uwch i'r GIG oherwydd y cymhlethdodau cynyddol ynghlwm wrth drin canser mwy datblygedig.
7. Roedd rhai cleifion, yn enwedig y rhai nad oeddent yn achosion brys, wedi talu am brofion diagnostig preifat er mwyn osgoi amseroedd aros hir, ond mynegwyd anhapusrwydd eu bod wedi gorfod gwneud hynny, ac na allai pawb fforddio'r opsiwn hwnnw. Dywedodd un claf, pe bai wedi gwybod bod posiblwydd bod ganddi ganser, y byddai wedi talu am brawf preifat. Dywedodd eraill, pe byddent wedi gwybod am y targed 10 diwrnod i weld ymgynghorydd meddygol, byddent wedi ceisio cael apwyntiad yn gynt. Nodwyd hefyd bod rôl i feddygon teulu o ran mynd ar ôl atgyfeiriadau.
8. Codwyd pryderon ynghylch cael mynediad at brawf mamogram, yn enwedig ar gyfer menywod dros 70 nad ydynt yn ymwybodol bod ganddynt yr hawl i ofyn am famogram. Roedd barn y dylid gostwng yr oed gwahodd menywod am famogram o 50 i 47, fel yn Lloegr. Mynegwyd pryderon tebyg mewn perthynas â phrofion antigen penodol i'r prostad ar gyfer dynion, gan nad oes llawer o ddynion yn

ymwybodol bod ganddynt yr hawl i ofyn am brofion, a bod yr ymwybyddiaeth am beryglon canser y prostad yn isel.

9. Nodwyd pryderon hefyd bod rhai cleifion ond yn cael diagnosis ar ôl mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys, sy'n rhoi straen ychwanegol ar gleifion a phwysau ychwanegol ar wasanaethau. Yn ôl Cancer Research UK mae tua chwarter o'r achosion o ganser yn y DU yn cael diagnosis ar ôl i'r claf fynd i'r ysbyty ar frys.
10. Roedd cleifion hefyd yn anhapus bod ceisiadau am brofion genetig yn cael eu gwrrhod. Roeddent o'r farn fod rôl ataliol profion genetig yn cael ei hanwybyddu, a bod ceisiadau am ail farn hefyd yn cael eu gwrrhod.

Thema 2: Pa welliannau a ellir eu gwneud i sicrhau bod cleifion yn cael triniaeth a gofal cyflym ac effeithiol?

Mynediad at driniaethau

11. Nododd y grŵp bryderon ynghylch cysondeb y mynediad at feddyginaethau, therapiâu, ymyriadau llawfeddygol a threialon clinigol ar gyfer canser. Mewn llawer o achosion roedd 'loteri cod post'. Nid oedd consensws cyffredinol y dylid sefydlu cronfa cyffuriau canser i Gymru, ond roedd teimlad bod y system Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol yn rhwystredig, a bod anghysondeb yn y ffordd y mae gwahanol oncolegwyr a gwahanol Fyrddau lechyd Lleol yn gwneud penderfyniadau. Roedd teimlad hefyd nad oedd y rhesymeg glinigol sy'n sail i'r penderfyniadau i ganiatáu neu wrthod triniaeth yn cael ei chyfleo'n glir i gleifion bob tro. Roedd barn bod angen dull gweithredu cyson ledled Cymru sydd wedi'i ariannu'n briodol i sicrhau tegwch o ran mynediad, ond hefyd y dylai oncolegwyr gael mwy o rôl yn y broses o wneud penderfyniadau gan fod ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth orau am gleifion unigol.
12. Roedd cleifion yn gyffredinol o'r farn, unwaith y maent yn y system, bod achosion unigol yn cael eu monitro'n dda, ond bod y driniaeth

weithiau'n ddi-drefn a bod oedi. Nododd rai cyfranogwyr bod y driniaeth ar gyfer canser y fron yn para'n rhy hir. Un awgrym oedd y dylid rhagdybio y bydd claf yn dymuno bwrw ymlaen â'r driniaeth, gan drefnu hynny ar y cyfle cyntaf er mwyn osgoi oedi unwaith bydd y claf wedi cyfarfod â'i feddyg ymgynghorol am y tro cyntaf.

Mynediad at wasanaethau arbenigol

13. Roedd profiadau cleifion yn gymysg, yn enwedig ar gyfer canser llai cyffredin. Gall gwasanaethau amrywio'n fawr, ac nid yw gofal safon aur ar gael bob tro. Roedd cydnabyddiaeth, fodd bynnag, er y gall canolfannau canser arbenigol fod yn bell i'w cyrraedd, neu hyd yn oed yn Lloegr, bod cleifion yn fodlon teithio i gael y gofal gorau. Roedd rhai cleifion a oedd yn bresennol wedi symud o Loegr i Gymru, neu i'r gwrthwyneb, er mwyn cael y gofal gorau ar gyfer eu canser penodol.
14. Roedd pryder yngylch argaeledd radiolegwyr yng Nghymru.

Darpariaeth y driniaeth

15. Roedd safbwytiau cymysg yngylch yr amgylchedd ar gyfer darparu gwasanaethau. Roedd rhai wedi cael profiadau cadarnhaol tra bo eraill wedi cael profiadau negyddol. Dywedodd un claf ei fod wedi gorfol aros yn y car i osgoi'r amgylchedd llawn straen lle'r oedd ei driniaeth yn cael ei darparu, tra bo cleifion eraill wedi cyfeirio at ddiffyg preifatrwydd. Roedd pryderon hefyd yngylch argaeledd ac ansawdd gwasanaethau y tu allan i oriau.

Mynediad i ôl-ofal

16. Roedd cleifion o'r farn bod diffyg mawr o ran gwasanaethau ôl-ofal, ac nad oedd effeithiau'r ofn bod canser yn mynd i ddod yn ôl yn cael eu cydnabod ddigon. Roeddent o'r farn bod rôl i feddygon teulu a nyrsys cymunedol ddarparu ôl-ofal yn y gymuned i gleifion sydd wedi'u rhyddhau o ofal eilaidd neu drydyddol, a dylai hynny fod yn rhan o

gontactau meddygon teulu ac y dylid monitro eu perfformiad. Roedd un grŵp o'r farn y dylai canser gael ei gynnwys yn y Fframwaith Ansawdd a Deilliannau i feddygon teulu.

17. Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn teimlo nad oedd digon o wybodaeth ar gael am barhad sgrinio ar ôl triniaeth, ac y dylai'r cyfnodau sgrinio adeg ôl-ofal fod yn nes at ei gilydd.
18. Nododd rai cleifion yr effeithiau cadarnhaol yr oedd canolfannau lles wedi'u cael ar eu bywydau yn ystod ac ar ôl diagnosis a thriniaeth. Nodwyd nad oedd materion seicolegol cleifion yn cael eu trin yn ddigonol a bod angen mwy o gefnogaeth yn y maes hwn.
19. Cafodd rhagleni adsefydlu ar ôl canser yn y trydydd sector eu canmol, yn enwedig i gleifion sydd angen therapi galwedigaethol a lleferydd. Nodwyd nad oes rhagleni o'r fath ar gael ledled Cymru.

Thema 3: A yw cleifion yn cael cefnogaeth ddigonol a gofal sy'n canolbwytio ar yr unigolyn?

Grymuso cleifion

20. Roedd barn bod angen grymuso cleifion yn fwy, a bod angen gwell dealltwriaeth ar gleifion o'u hawliau.
21. Nododd y cleifion broblemau gyda chael mynediad at eu nodiadau, gan nad oedd cleifion yng Nghymru bob amser yn gwybod y gallent ofyn am gopïau.

Cynlluniau gofal

22. Dim ond rhai o'r cleifion oedd â chynlluniau gofal ysgrifenedig. Roedd rhai o'r cleifion o'r farn bod diffyg ymgysylltu ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol o ran eu gofal.
23. Gan fod pobl yn byw gyda chanser yn hirach, ac mewn llawer o achosion bod ganddynt nifer o gyflyrau sy'n gallu effeithio ar ei gilydd, roedd y cleifion o'r farn y dylai eu cynlluniau gofal adlewyrchu hynny.

Dylai gweithwyr proffesiynol meddygol gydweithio i sicrhau ffordd gydgysylltiedig o drin cleifion.

Darparu gwybodaeth i gleifion

24. Roedd y grwpiau'n pryderu bod cleifion yn cael llawer o wybodaeth adeg diagnosis, efallai pan nad ydynt yn y cyflwr gorau i ddeall y manylion. Mae angen amser i feddwl ac ystyried y wybodaeth. Nodwyd fod angen ystyried dewisiadau unigol wrth ddarparu gwybodaeth am ddiagnosis a thriniaeth canser, ac addasu'r ddarpariaeth yn unol â hynny.
25. Roedd barn bod diffyg gwybodaeth a chyngor ariannol am fudd-daliadau ac effaith canser ar sefyllfa ariannol cleifion.
26. Roedd cleifion yn pryderu nad yw arfer da ynghylch darparu gwybodaeth yn cael ei rannu a'i roi ar waith yn gyson ledled Cymru. Er enghraift, nid yw llyfr glas gogledd Cymru ar gael yn y de.
27. Roedd y cleifion o'r farn bod gwefannau GIG Cymru yn anodd eu defnyddio, a bod llai o wybodaeth ar gael o'i gymharu â gwefannau yn Lloegr. Mae dryswch ynghylch pwy fyddwch yn ei weld nesaf a beth fydd yn digwydd. Byddai cael siartiau llif ar gyfer triniaethau a diagnosteg yn eu helpu i ddeall eu sefyllfa a gofyn cwestiynau.

Gweithwyr allweddol

28. Roedd y cleifion yn cytuno ei bod yn bwysig cael rhywun i fynd atynt gyda chwestiynau neu bryderon (un person drwy gydol y driniaeth, neu arbenigwr ar gyfer pob cam), ond roedd dryswch ynghylch dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r ôl y gweithwyr allweddol. Roedd rhai cleifion o'r farn bod elusennau yn llenwi'r bwlch hwnnw. Roedd rhai o'r cleifion yn gwybod pwy oedd eu gweithiwr allweddol, ond nid oedd eraill yn gwybod pwy oedd eu gweithiwr allweddol neu hyd yn oed a oedd ganddynt un. Awgrymwyd nad oedd cael gweithiwr allweddol ar gyfer pob claf canser yn gyson ledled Cymru. Dywedodd

un claf ei fod wedi cael cerdyn cyswllt gweithiwr allweddol generig, gyda rhif ffôn switsfwrdd a dim enw. Mewn rhai achosion, mynegodd cleifion bryder ynghylch llwyth gwaith y gweithwyr allweddol.

Arbenigwyr nyrsio clinigol

29. Roedd y cleifion yn gadarnhaol iawn am rôl nyrsys arbenigol, ond yn poeni bod y cyswllt yn cael ei golli pan fydd nyrs yn newid rôl neu i ffwrdd o'r gwaith yn sâl. Pan oedd unigolion wedi cael profiadau gwael gydag arbenigwyr nyrsio clinigol, roedd hynny'n aml yn gysylltiedig â llwyth gwaith uchel y nyrsys yn effeithio ar eu gallu a'u perfformiad.

Grwpiau Cymorth

30. Roedd mynediad at grwpiau cymorth yn bwysig iawn, ond roedd cleifion o'r farn y dylid gwneud mwy i'w cyfeirio at grwpiau a allai ddarparu cymorth, yn hytrach na gadael i'r cleifion ddod o hyd iddynt eu hunain.

Gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd cleifion

31. Cafwyd safbwytiau cymysg ar rôl y GIG o ran darparu gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd cleifion – roedd rhai yn ystyried hynny'n bwysig iawn o ran darparu cefnogaeth i'r claf, ond roedd eraill yn teimlo y dylid blaenoriaethu gwasanaethau i gleifion canser am fod adnoddau'n brin. Roedd rhai cleifion o'r farn mai rôl i'r trydydd sector oedd gofalu am y teuluoedd.

Materion eraill a godwyd

Ymwybyddiaeth ac addysg i'r cyhoedd

32. Roedd cleifion yn cytuno ar bwysigrwydd diagnosis cynnar, a'r angen i godi ymwybyddiaeth ynghylch y symptomau a'r risgiau, yn enwedig

ymhlith pobl ifanc. Cafwyd awgrymiadau, am fod negeseuon ymwybyddiaeth canser yn gyson eu cynnwys, y dylai gwledydd y DU weithio'n agosach gyda'i gilydd i gynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyhoeddus, ac y dylid defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fwy i dargedu pobl ifanc yn ogystal ag ymgyrchoedd teledu a gweithio mewn ysgolion.

33. Roedd pryder yngylch y nifer isel sy'n manteisio ar raglenni sgrinio, fel y rhaglen sgrinio am ganser y coluddyn, ac roedd teimlad bod angen gwneud mwy i roi gwybod i bobl am fanteision sgrinio.
34. Roedd gan gleifion ddiddordeb yn yr archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed gan Lywodraeth Cymru, ond dylai'r rheiny fod wyneb yn wyneb â meddyg teulu.
35. Roedd rhai cleifion o'r farn bod sgyrsiau am ganser weithiau yn cael eu dominyddu gan ganser menywod. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd yn yr ystadegau canser rhwng y rhywiau dylid targedu dynion i'w hannog i fod yn fwy rhagweithiol am eu hiechyd.
36. Roedd cleifion yn pryderu fod y system eisoes wedi cyrraedd ei chapasiti, ac na allai ymateb i'r cynnydd yn y galw o ganlyniad i ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyhoeddus.

Gwybodaeth ystadegol

37. Roedd cleifion yn anfodlon ag argaeedd a thryloywder gwybodaeth ystadegol ar gyfer canser, ac yn teimlo y byddai mwy o dryloywder yn caniatáu i gleifion a gwleidyddion allu dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Roedd pryderon penodol yn cynnwys:
 - a. y ffordd y caiff unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio am driniaeth dros y ffin eu cofnodi yn yr ystadegau amseroedd aros; a
 - b. diffyg gwybodaeth ystadegol am diwmorau eilaidd.